Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | ChiefInspector@estyn.gov.uk |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 19 Gorffennaf 2019 |
| **Pwnc / Subject:** | Cwricwlwm drafft i Gymru 2022 |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**CYFLWYNIAD**

Mae Estyn yn croesawu'r gyfres o ddogfennau drafft yn ymwneud â'r cwricwlwm. Gan mwyaf, mae pob un ohonynt yn rhoi ystyriaeth dda i bedwar diben y cwricwlwm newydd ac egwyddor sybsidiaredd. Maent yn darparu digon o hyblygrwydd i alluogi ymarferwyr a darparwyr i ddylunio cwricwla lleol sy'n berthnasol i'r dysgwyr y maent yn eu haddysgu.

Rydym wedi ymateb i bob un o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad ac wedi cynnwys adborth penodol ar bob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Yn gyffredinol, mae'r adrannau datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, deilliannau cyflawniad a chynllunio ar gyfer dysgu bob un ohonynt yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu yn dda. Rydym wedi amlygu ychydig o feysydd allweddol lle teimlwn y byddai'r canllawiau yn elwa o'u hstyried ymhellach a gwneud diwygiadau.

- Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i ymgyfarwyddo â'r trefniadau newydd a dylunio cwricwla lleol, ac y dylai'r holl bartneriaid werthfawrogi y bydd cyflymder y daith diwygio'r cwricwlwm yn gwahaniaethu rhwng darparwyr.
- Un thema gyffredin sy'n rhedeg drwy ein hymateb yw'r angen helaeth am ddysgu proffesiynol ac adnoddau perthnasol o ansawdd uchel i gefnogi paratoi, cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Er na fydd ei drefniadau yn cael eu pennu gan ddogfennau'r cwricwlwm, ni ellir pwysleisio pwysigrwydd dysgu proffesiynol digon. Heb gysylltiadau cryf rhwng datblygiadau mewn dysgu proffesiynol â'r cwricwlwm, mae perygl na fydd gan rai ymarferwyr, a darparwyr felly, y ddealltwriaeth a'r medrau angenrheidiol i ddylunio neu gyflwyno cwricwla o ansawdd uchel ar gyfer eu dysgwyr.
- Wrth i newid gyflymu mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd, ac wrth i ddulliau addysgu a dysgu ehangu, dylai Llywodraeth Cymru, sefydliadau haen ganol a darparwyr hyrwyddo diwylliant cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ac ymholi. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo darparwyr i ddatblygu'u cwricwla eu hunain wedi'i ysgogi gan ddiben, gwella hunanwerthuso a phrosesau gwella, a gwella cynllunio llwybrau i baratoi ar gyfer bywyd dysgwyr y tu hwnt i'r ysgol.
- Mae'r cyflwyniad ar-lein yn ei gwneud hi'n anodd gweld cysylltiadau a dilyniant dysgwyr, ac felly mae'n gwneud cynllunio'n anodd. Mae'r testun, er ei bod yn bwysig ei ddarllen, yn destun dwys yn aml ac efallai na fydd yn hoelio sylw ymarferwyr. Gallai'r adran Dechrau Arni, er enghraifft, fod yn llai dwys o ran geiriau a defnyddio mwy o ffeithluniau. Mae'n rhaid i'r canllawiau gynorthwyo ymarferwyr i ddylunio cwricwla lleol sy'n datblygu ehangder a dwyster dysgu yn raddol mewn ffordd ddatblygiadol briodol. Felly, mae'n bwysig gallu gweld elfennau ochr yn ochr â'i gilydd, er enghraifft, y cynllunio ar gyfer dysgu ochr yn ochr â'r camau cynnydd. Mae'n hanfodol gweld deilliannau cyflawniad nifer o gamau cynnydd ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd hyn yn annog ymarferwyr i ystyried dysgu fel continwwm.
- Mae angen sicrhau addysgu penodol, systematig a datblygiadol o ran medrau digidol yn y cwricwlwm, ac yn arbennig, tri llinyn y fframwaith cymhwysedd digidol nad ydynt i'w gweld ar hyn o bryd yn y maes dysgu a phrofiad, sef dinasyddiaeth, rhyngweithio a chydweithredu, a chynhyrchu. Awgrymwn y dylai'r addysgu sylfaenol hwn gael ei gynnwys yn y maes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth a thechnoleg, fel yr amlinellir yn ein hymateb i gwestiwn B5. Bydd hyn yn cynorthwyo'r holl ymarferwyr i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso a chyfnerthu'r medrau hyn ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad, a sicrhau bod y fframwaith cymhwysedd digidol yn cael yr effaith fwyaf ar ddysgwyr.
- Dylai pwysigrwydd ymarferwyr yn defnyddio dulliau addysgu a dysgu priodol ym mhob oed fod yn fwy penodol yn y canllawiau. Mae hyn yn golygu y dylai ymarferwyr ddewis y dull neu ddulliau mwyaf perthnasol a phriodol ar gyfer y dysgwyr, y sefyllfa, a'r pwnc. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dull dysgu drwy brofiad ar gyfer yr holl ddysgwyr, lle bo'n briodol. Dylai dogfennau'r cwricwlwm bwysleisio na ddylai'r math hwn o ddysgu gael ei

gyfyngu i ddisgyblion iau, ond yn hytrach y dylai'r arfer dda bresennol mewn addysgu a dysgu yn y cyfnod sylfaen gael ei hymestyn a'i defnyddio ar draws pob oed, fel y bo'n briodol, ochr yn ochr â dulliau addas eraill.

- Adlewyrchir y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a'r agweddau trawsbynciol ar y cwricwlwm yn eithaf da yn y dogfennau. Dylai'r rhain fod yn fwy penodol ym manylion y meysydd dysgu a phrofiad er mwyn hybu'u perthnasedd ar draws y cwricwlwm. Mae cysylltiadau rhwng meysydd dysgu a phrofiad yn gyfyngedig yn aml, ac mae'n anodd gweld sut mae'r canllawiau yn hyrwyddo cydlyniant a chydbwysedd wrth gynllunio cwricwla lleol yn ddigon da. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gofynion addysg hawliau dynol, addysg cydberthynas a rhywioldeb, a gyrfaoedd. Bydd cefnogi dysgu proffesiynol yn y meysydd hyn yn hollbwysig i gyflawni'r uchelgeisiau hyn.
- Mae'r canllawiau yn nodi negeseuon pwysig a defnyddiol yn ymwneud ag egwyddorion asesu. Fodd bynnag, nid yw pwysigrwydd sicrhau bod arferion asesu ffurfiannol yn rhan reolaidd a gwerthfawr o addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn ddigon clir. Byddai'n fuddiol pwysleisio y dylai asesu ffurfiannol fod yn rhan annatod o addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Er mwyn sicrhau'r strategaethau a amlinellir yn y cynnig hwn ynglŷn ag asesu, mae angen rhoi ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol i sicrhau bod gan arweinwyr ac ymarferwyr ddealltwriaeth gryf o ystod eang o weithdrefnau asesu ffurfiannol a'r buddion a ddaw yn sgil y rhain.
- Bydd mwy o eglurder ynglŷn â mesurau perfformiad a ddefnyddir ar gyfer atebolrwydd lleol a chenedlaethol yn ddefnyddiol i'r ysgolion hynny sy'n gweld y trefniadau presennol fel rhwystr rhag newid. Bydd hyn yn helpu rhoi sicrwydd a chyflawni'r gwahaniad rhwng asesu ar gyfer dysgu ac atebolrwydd. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n parhau â'r egwyddorion cyd-ddatblygu a sybsidiaredd wrth ddatblygu'r mesurau hyn.
- Mae'r defnydd o derminoleg penodol iawn i bwnc mewn rhai meysydd dysgu a phrofiad yn gwneud y ddogfen yn anodd i rai ymarferwyr ei deall. Dylid ailystyried hyn a'i ddiwygio i wneud y canllawiau yn ddealladwy a defnyddiol i'r holl ymarferwyr.
- Yn y dyfodol, mae angen i'r cwricwlwm ar-lein fod yn hyblyg fel y gellir ei gadw'n gyfredol a pherthnasol wrth i'r cwricwlwm ddatblygu. Os yw'n cynnwys adnoddau, bydd angen dweud yn glir p'un a yw'r rhain wedi'u sicrhau o ran ansawdd ynteu ai dim ond syniadau ac adnoddau ydynt i'w rhannu gan ymarferwyr er diddordeb ymarferwyr eraill.
- Ychydig iawn o gyfeiriad penodol a geir at annog ymwybyddiaeth a dealltwriaeth entrepreneuraidd a gwleidyddol dysgwyr, neu ganllawiau ar gyfer hynny. Mae angen canllawiau cliriach i helpu ymarferwyr i gynllunio ar gyfer datblygu'r agweddau cynyddol bwysig hyn ar ddysgu ar lefelau datblygiadol briodol ar draws y cwricwlwm.
- Dylai'r canllawiau archwilio'n llawnach sut gall y sector ôl-16 a chyflogwyr gael eu cynnwys yn ehangach wrth gefnogi'r pontio i hyfforddiant pellach, addysg bellach a chyflogaeth wrth i ddysgwyr gyrraedd cam cynnydd 5. Dylai hyn gynnwys canllawiau i gynorthwyo dysgwyr i gael profiadau pwrpasol yn gysylltiedig â gwaith a gwybodaeth ac arweiniad effeithiol ar yrfaoedd. Yn ogystal, mae'r canllawiau drafft yn cynnwys cyfeiriad at addysg gyrfaoedd (gweler hefyd yr ymateb i B5 a B9).
- Wrth fodloni'r angen am addysg gytbwys, mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael cyfle i fynegi'u hunigolrwydd ac i fynd ar drywydd eu diddordebau a'u hoffterau. Mae'r cwestiwn ynghylch beth yw 'profiad ystyrlon' yn parhau. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad manylach i ddarparwyr fel eu bod yn gallu cynllunio ar gyfer bron pob dysgwr yn addysg y brif ffrwd er mwyn bodloni deilliannau cyflawniad cam cynnydd 5 ar draws yr holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob maes dysgu a phrofiad.

**CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD**

**ADRAN A**

**A1: I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd y *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn:**

- **ddysgwyr uchelgeisiol a galluog**
- **unigolion iach a hyderus**
- **ddinasyddion egwyddorol a gwybodus**
- **cyfranwyr mentrus a chreadigol?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | X | | | |

**Sylwadau:**

Mae canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn pwysleisio'n glir bwysigrwydd y pedwar diben a amlinellwyd yn Dyfodol Llwyddiannus[1]. Drwy'r canllawiau cyffredinol cyfan ac ym mhob un o'r meysydd dysgu a phrofiad, mae'n amlwg bod rhaid i'r pedwar diben fod wrth wraidd cwricwlwm pob darparwr. Ochr yn ochr â chymorth, arweiniad a hyfforddiant o ansawdd uchel, sy'n hanfodol i sicrhau llwyddiant, mae'r canllawiau cwricwlwm drafft yn fan cychwyn da i weithwyr addysg proffesiynol i ddatblygu cwricwlwm a arweinir gan ddibenion.

Mae'r cynnwys ysgrifenedig a'r clipiau fideo yn darparu cefndir cynhwysfawr i'r cwricwlwm newydd a dylai helpu ymarferwyr ac arweinwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r modd y mae'r canllawiau wedi datblygu. Dylai hyn helpu ymarferwyr i sylweddoli y bydd datblygu cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben yn mynnu eu bod yn mynd trwy lawer o'r un prosesau - treialu, myfyrio, gwerthuso ac addasu syniadau a dulliau. Gellid atgyfnerthu hyn ymhellach drwy wneud cysylltiadau penodol â dysgu proffesiynol a'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth. Bydd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, y seiliau rhesymegol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad, deilliannau cyflawniad o fewn pob cam cynnydd, a'r adran cynllunio ar gyfer dysgu i gyd yn ddefnyddiol i ddarparwyr wrth ddylunio cwricwlwm ac yn enwedig wrth sicrhau ei fod yn bodloni anghenion, diddordebau a dyheadau'r dysgwyr yn eu lleoliadau.

Dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol barhau i gynorthwyo ymarferwyr i ddeall y dylai'r pedwar diben fod yn gyfeirbwyntiau cyson. Dylai pob ymarferydd ar hyd y continwwm fod yn ymwybodol o'r modd y mae eu gwaith yn cyfrannu at yr uchelgais cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni'r pedwar diben ar gyfer pob dysgwr. Fel arall, mae perygl y bydd darparwyr yn colli golwg arnynt wrth ymgolli mewn llunio cwricwlwm cyffrous, difyr a phwrpasol ar gyfer eu dysgwyr.

Gyda chymorth o ansawdd uchel, mae'n debygol y bydd darparwyr cryf a blaengar yn sicrhau bod y pedwar diben wrth wraidd popeth a wnânt. Yn yr un modd, bydd ymarferwyr medrus, myfyriol yn adnabod ac yn gwerthfawrogi'r rhan benodol y maent yn

---

[1] Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf Darllenwyd ar: 19/06/20119

ei chwarae wrth ddatblygu pobl ifanc â chymeriadau cyflawn sydd wedi cael addysg dda sy'n meddu ar yr holl briodweddau sy'n gysylltiedig â'r pedwar diben.

Gydag ychydig iawn o eithriadau, prin iawn y mae'r fersiwn bresennol o'r cwricwlwm yn cyfeirio'n benodol at, neu'n darparu arweiniad ar gyfer annog ymwybyddiaeth a dealltwriaeth entrepreneuraidd a gwleidyddol dysgwyr i'w helpu i ddod yn 'ddinasyddion gwybodus' a 'chyfranwyr mentrus'. Dylai'r elfennau hyn gael eu hadlewyrchu'n gryfach, er enghraifft ym meysydd dysgu a phrofiad y Dyniaethau, ac Iechyd a Lles ym mhob cam cynnydd, yn ogystal â thrwy'r adran elfennau ac ystyriaethau trawsbynciol eraill.

**A2: Gan edrych ar y *datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig*, i ba raddau ydych chi'n cytuno bod y rhain yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno na'n anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | X | | | |

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer yr holl feysydd dysgu a phrofiad yn rhoi digon o gyfle i ymarferwyr medrus ddylunio cwricwlwm sy'n berthnasol i'r dysgwyr y maent yn eu haddysgu. Mae'r datganiadau'n crynhoi set addas o flaenoriaethau ar gyfer dysgu. Maent yn ddigon eang i ddarparwyr eu dehongli mewn ffordd sy'n eu galluogi i deilwra'u darpariaeth ar gyfer pob dysgwr, ond yn ddigon penodol i sicrhau eu bod yn caffael rhai profiadau, gwybodaeth a sgiliau cyffredin rhwng 3 ac 16 oed. I gyflawni'r cydbwysedd hwn, mae'n bwysig y gall darparwyr gael cymorth ac adnoddau addas o ansawdd uchel i ddeall y blaenoriaethau eang hyn ac i feddwl amdanynt yn greadigol, yn enwedig yn y dyddiau cynnar o'u gwaith yn datblygu'r cwricwlwm.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, gellid amgyffred bod y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn gweithio ar lefelau gwahanol mewn meysydd dysgu a phrofiad gwahanol; maent yn eang iawn yn y dyniaethau, ac eto'n fwy penodol o lawer mewn mathemateg a rhifedd, er enghraifft. Gallai hyn arwain at rywfaint o ddryswch i ymarferwyr, a byddai'n ddefnyddiol gallu rhagweld camddealltwriaethau posibl trwy ddarparu sail resymegol glir sy'n esbonio'r rhesymau y tu ôl i'r gwahaniaethau hyn, a gafodd eu hystyried yn ofalus ac yn faith gan y grwpiau yn gweithio ar y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd dysgu a phrofiad wedi ysgrifennu'u datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn ffordd sy'n sicrhau bod pobl nad ydynt yn arbenigwyr yn deall y datganiadau, heb or-symleiddio'r iaith a ddefnyddir. Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn enghraifft dda o hyn. Fodd bynnag, ceir ychydig o enghreifftiau o ddefnydd diangen o iaith or-gymhleth, er enghraifft, mewn Mathemateg a Rhifedd. Mae perygl y gallai hyn annog pobl nad ydynt yn arbenigwyr i beidio ag ymgysylltu'n bwrpasol â'r meysydd hyn.

**A3: Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022*?**

| Oes | x | Nac oes | |
|---|---|---|---|

**Os felly, sut y gellid eu gwella, yn eich barn chi?**

Dylai arweinwyr ac ymarferwyr ddeall y cefndir a'r sail resymegol i'r cwricwlwm drafft a gyflwynir yn yr adran Dechrau Arni, yn ogystal â'r trosolygon o bob maes dysgu a

phrofiad.  Ar ei ffurf bresennol, fodd bynnag, mae'r adran hon braidd yn faith a 'sych'.  O ganlyniad, mae perygl na fydd llawer yn darllen y wybodaeth bwysig hon cyn symud ymlaen at fanylion y meysydd dysgu a phrofiad.  Er mwyn osgoi hyn rhag digwydd, gall fod yn fuddiol ystyried fformat mwy difyr, llai dwys o ran geiriau, gan ddefnyddio mwy o ddeunydd graffeg efallai, a chadw'r testun yn glir a miniog.

Mae llawer iawn o destun i ymarferwyr ei ddarllen mewn mannau eraill hefyd.  Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer ymarferwyr cynradd, y bydd angen iddynt ystyried yr holl feysydd dysgu a phrofiad.  Ailadroddir nifer o elfennau'r canllawiau ym mhob maes dysgu a phrofiad.  Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am:

- gwricwlwm gweddnewidiol
- cynnydd
- 'egwyddorion cynnydd'
- datblygu cwricwlwm eang a chytbwys
- themâu trawsbynciol

Dylid rhoi ystyriaeth i ddod â'r wybodaeth gyffredin hon ynghyd mewn un lle ar gyfer yr holl feysydd dysgu a phrofiad, yn y canllawiau cyffredinol efallai, er mwyn osgoi ailadrodd.

Yn sgil datblygu'r adnodd ar-lein, mae potensial i gynnwys ymarferwyr yn llwyddiannus i gynorthwyo â datblygu'r cwricwlwm newydd.  Rydym yn croesawu'r symudiad at adnodd ar-lein gan y gellir ei ddiwygio o dro i dro i sicrhau ei fod yn para'n gyfredol.  Gellid gwneud gwelliannau i'r cyflwyniad ar-lein o'r cwricwlwm i'w gwneud yn haws i ymarferwyr wneud defnydd effeithiol o'r deunyddiau.

Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gallu gweld sawl lefel cynnydd yn llorweddol ar draws tudalen.  Bydd hyn yn eu galluogi i weld yr adrannau o'r continwwm dysgu sy'n debygol o fod yn berthnasol i oedran a chyfnod datblygu eu dysgwyr.  Er enghraifft, mae athro yn debygol o fod eisiau ystyried y deilliannau cyflawniad yng ngham cynnydd 2 ochr yn ochr â'r rheini yng ngham cynnydd 3 fel eu bod yn gallu gwerthfawrogi'r dysgu sydd ei angen nesaf.  Fel y mae'r cwricwlwm wedi'i gyflwyno ar hyn o bryd, byddai hyn yn golygu gorfod sgrolio i fyny ac i lawr y dudalen gryn dipyn, gan arwain at rwystredigaeth ac angen argraffu rhannau cyfan o'r cwricwlwm.  Gan mai'r bwriad yw i hwn fod yn gwricwlwm ar y we, a all newid dros amser, mae'n bwysig annog ymarferwyr i'w ddefnyddio'n electronig ac i beidio ag argraffu dogfennau.

Un opsiwn posibl fyddai addasu'r safle fel bod gan unigolion ddewislen o opsiynau i ddewis ohoni.  Byddai mwy o ymarferoldeb a dull gweithredu y gellir ei addasu yn cael eu croesawu gan ymarferwyr a defnyddwyr eraill ac, yn enwedig wrth i bobl ymgyfarwyddo â'r safle, byddai'n arbed cryn amser.  Byddai hefyd yn helpu i ddiogelu'r cwricwlwm at y dyfodol a sicrhau bod ymarferwyr a gweithwyr addysg proffesiynol eraill yn cael eu hatgoffa o hyd am y seiliau rhesymegol a'r cymorth sydd y tu ôl i elfennau fel deilliannau cyflawniad.

**A4: I ba raddau y mae'r cynigion asesu yn helpu lleoliadau ac ysgolion i nodi cryfderau a chyflawniadau dysgwr, a'r meysydd i'w gwella, er mwyn iddynt allu helpu dysgwr i wneud cynnydd drwy nodi'r camau nesaf?**

| Arbennig o gefnogol | Cefnogol iawn | Cefnogol | Gweddol gefnogol | Ddim yn gefnogol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| | | X | | |

Mae'r canllawiau yn amlinellu negeseuon pwysig a defnyddiol yn ymwneud ag egwyddorion asesu. Fodd bynnag, mae angen i'r holl drefniadau asesu gynnwys arweiniad clir yn y meysydd canlynol:

- Mae asesu yn allweddol i gynorthwyo cynnydd ac mae'n annatod i ddysgu ac addysgu. Ni ddylid cymysgu rhwng asesu a'r gweithgareddau hynny sy'n cyfrannu at atebolrwydd allanol a monitro lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i asesu at ddibenion ffurfiannol dros asesu crynodol o dan y trefniadau newydd.
- Dylai'r deilliannau cyflawniad gael eu defnyddio fel y sail ar gyfer adeiladu darlun cywir o sut mae dysgwr yn gwneud cynnydd ar hyd y continwwm, yng nghyd-destun pedwar diben y cwricwlwm. Ni ddylid eu defnyddio fel model ffit orau ar oedran penodol neu amser penodol i gynhyrchu asesiad crynodol o ddysgwr.

Mae'r canllawiau'n nodi'n glir yr angen i wahanu asesu ar gyfer dysgu oddi wrth atebolrwydd ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, mae angen cyfarwyddyd pellach i gynghori a sicrhau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol na ddylent gasglu a defnyddio asesiadau athrawon at ddibenion atebolrwydd. Byddai hyn yn helpu canolbwyntio asesu ar gynorthwyo cynnydd dysgwyr drwy nodi cryfderau, meysydd i'w gwella a chamau nesaf.

Mae angen dylunio a chyfleu'n glir y mesurau a ddefnyddir ar gyfer atebolrwydd lleol a chenedlaethol. Bydd hyn yn helpu rhoi sicrwydd a chyflawni'r gwahanu rhwng asesu ffurfiannol ac atebolrwydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau ag egwyddorion cyd-ddatblygu a sybsidiaredd wrth ddatblygu'r mesurau hyn, fel y gallant ennyn hyder ymarferwyr ledled Cymru. Mae perygl y gall ymarferwyr fod yn amharod i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd os ydynt yn teimlo nad yw'r proffesiwn wedi cael llawer o fewnbwn i wneud penderfyniadau am fesurau atebolrwydd.

O dan yr adran 'Cyd-destun: Cynnydd a Chwricwlwm i Gymru 2022', mae'r canllawiau'n nodi: 'Beth bynnag yw oedran y dysgwr, bydd y ffocws ar sicrhau bod pob unigolyn yn llwyddo yn ei ddeilliannau cyflawniad mewn cam cynnydd cyn mynd ati i weithio tuag at y nesaf'. Gallai darparwyr ddehongli hyn fel bod angen i ddysgwyr gyflawni'r holl 'ddeilliannau cyflawniad' mewn cam cynnydd cyn symud ymlaen. Er y caiff hyn ei egluro nes ymlaen i ddangos, 'efallai y bydd dysgwr yn gweithio tuag at ddeilliannau cyflawniad sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar ddysgu mewn un cam cynnydd, ond yn gweithio tuag at ddeilliannau cyflawniad sy'n ymwneud ag agweddau eraill ar ddysgu mewn cam cynnydd gwahanol,' nid yw'r datganiad cychwynnol yn glir. Byddai'n fuddiol ailystyried y datganiad cyntaf er mwyn cael gwared ar unrhyw amwysedd.

Yn yr adran 'Beth yw diben asesu?' nid yw'n glir beth a gynigir drwy haeru y dylai asesu 'fod yn gymesur â'i fanteision.' Er ei bod yn werth pwysleisio na ddylai darparwyr greu trefniadau beichus mewn perthynas ag asesu, mae cymesuredd y rhain yn anodd ei ddiffinio. Mae'r pwynt bwled olaf ar y dudalen hon eisoes yn nodi, 'Dylai asesu ddarparu gwybodaeth berthnasol a chymesur am gynnydd a llwyddiant mewn perthynas â'r dysgu a fwriedir'. Mae hyn yn ddigonol. Os yw'r canllawiau yn dymuno nodi na ddylai trefniadau asesu roi baich gormodol ar ddysgwyr, gallai ddweud hyn.

Wrth bennu defnyddiau'r asesiad personol ar-lein, mae'r canllawiau yn cadarnhau'n ddefnyddiol fod asesiadau yn gyfan gwbl ffurfiannol ac nad ydynt wedi'u cynllunio i'w defnyddio fel mesur atebolrwydd.

Mae'r pwynt bwled olaf ond un o dan 'ystyriaethau allweddol' yn yr adran 'galluogi dysgwyr actif' yn nodi y dylai dysgwyr ddatblygu'r gallu i 'ddatblygu eu meini prawf

llwyddiant eu hunain'. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arweiniad ar hyn yn y brif adran. Dylai fod dull clir a phwrpasol gan ddarparwyr o ddatblygu'r medr pwysig hwn wrth i ddysgwyr wneud cynnydd.

Mae'r canllawiau yn nodi'n glir fod e-bortffolios yn rhoi i ddysgwyr 'gyfleoedd i amlygu'r hyn sy'n bwysig o ran eu cynnydd eu hunain a bod hyn yn helpu i feithrin dysgwyr annibynnol a gydol oes'. Fodd bynnag, mae angen i'r arweiniad fod yn glir ynghylch sut bydd e-bortffolios yn cynorthwyo dysgu a chynnydd, fel y datganwyd yn yr 'ystyriaethau allweddol'. Bydd yn bwysig egluro:

- diben e-bortffolios a rhoi negeseuon clir ynghylch y modd na ddylent gael eu defnyddio
- pwy sydd â pherchnogaeth dros yr e-bortffolios ac yn cael mynediad iddynt, er enghraifft p'un a fyddai gan rieni yr hawl i weld e-bortffolio dysgwr
- sut nad yw e-bortffolios yn dod yn faich biwrocrataidd ar ymarferwyr, yn enwedig dysgwyr ifanc
- unrhyw trawsgroesi rhwng e-bortffolios ac adborth a systemau adrodd i rieni.

**A5: Mewn perthynas ag adrodd i rieni a gofalwyr, rhowch eich barn ar:**

- **rôl y dysgwr wrth gyfrannu at y broses adrodd**
- **rôl rhieni/gofalwyr yn y broses adrodd**
- **yr wybodaeth y byddech am ei chynnwys.**

Mae Estyn yn croesawu'r pwysigrwydd a briodolir i gynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn y broses adrodd.

Bydd cynnwys rhieni/gofalwyr yn helpu cipio cynnydd dysgwyr oddi mewn i ddarparwr a thu hwnt, ond dylai'r canllawiau ddweud yn glir y dylai darparwyr, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyfathrebu â rhieni/gofalwyr, er enghraifft pan fyddant wedi'i gwahanu.

Byddai enghreifftiau clir o gynnwys rhieni'n barhaus yn fuddiol i'r canllawiau a byddai'n cynorthwyo darparwyr i greu trefniadau adrodd pwrpasol, addysgiadol a chynhwysol. Er enghraifft, dylent drefnu cyfarfodydd defnyddiol rhwng rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr sy'n darparu ar gyfer deialog bwrpasol. Gall y rhain gynnwys cyfarfodydd rhieni-athrawon yn cael eu harwain gan ddysgwyr hefyd i sôn am gynnydd dysgwyr. Fel hyn, gall dysgwyr egluro'u cynnydd eu hunain ac agor deialog rhwng y cartref, yr ysgol a'r dysgwr.

Dylai'r broses adrodd i rieni fod yn hyblyg, yn fuddiol a rheolaidd. Dylai adroddiadau fod yn onest. Dylent roi disgrifiad clir a defnyddiol o gynnydd a chyrhaeddiad ym mhob maes dysgu a phrofiad. Dylent gynnig sylwadau ar ddatblygiad personol a chymdeithasol dysgwyr mewn perthynas â'r pedwar diben. Dylai adrodd fod yn adeiladol, yn anogol ac ysgogol, a chanolbwyntio ar gryfderau a blaenoriaethau ar gyfer datblygu, a nodi camau nesaf ar gyfer dysgu. Mae'n ffurfio rhan o ddeialog rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae Estyn yn croesawu'r rôl bwysig y dylai llais y dysgwr ei chwarae yn y broses adrodd. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn cydnabod dysgwyr fel partneriaid allweddol yn y broses ddysgu. Bydd yn helpu rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr i ddeall yn gliriach beth mae dysgwyr yn ei ddeall a beth maent yn ei weld yn anodd. Bydd yn helpu annog deialog rhwng y dysgwr, y cartref a'r ysgol ac yn darparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr a fydd yn eu galluogi i gynorthwyo'r dysgwr, a gall roi arweiniad i ymarferwyr y gallant ei ddefnyddio i helpu llywio addysgu.

**ADRAN B**

**Adran B – Cwestiynau manylach**

**B1: Pa mor ddefnyddiol fyddai *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* i chi wrth ddatblygu cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr?**

| Arbennig o ddefnyddiol | Defnyddiol iawn | Defnyddiol | Gweddol ddefnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| | | X | | |

Mae Estyn yn croesawu cwricwlwm cydlynus ar gyfer plant a phobl ifanc o 3 – 16 oed. Mae cryn fanteision i gwricwlwm cydlynus a dylai helpu sicrhau cynnydd priodol ar gyfer yr holl ddysgwyr ar hyd y continwwm hwnnw. Mae gan y cwricwlwm drafft y potensial i ddarparu'r cydlyniant hwnnw. Mae ei ffocws ar yr un dibenion a ddiffiniwyd yn glir, yr un meysydd dysgu a phrofiad a set o gamau cynnydd galluogi clir sy'n rhychwantu pob oedran a chyfnod datblygu, yn galluogi darparwyr ac ymarferwyr i weld darlun llawn, o 3 i 16 a thu hwnt. Mae'r cwricwlwm drafft yn rhoi i uwch arweinwyr hyderus ac ymarferwyr a staff cymorth creadigol sail gadarn ar gyfer dechrau archwilio posibiliadau'r cwricwlwm. Mae'n cynnig rhyddid a hyblygrwydd o fewn fframwaith clir.

Er mwyn sicrhau'r cynnydd a'r deilliannau gorau ar gyfer pob dysgwr, bydd angen dysgu proffesiynol ac adnoddau o ansawdd uchel ar arweinwyr ac ymarferwyr, yn ogystal ag amser i ystyried eu dull o ddylunio, gwerthuso ac addasu cwricwlwm ar gyfer eu darparwr. Fe gymer y broses amser, ac mae'n bwysig bod yr holl bartneriaid yn y broses yn cydnabod hyn ac nad ydynt yn gosod gofynion afresymol ar ddarparwyr yn rhy gynnar yn y broses, ond yn hytrach gwerthfawrogi y bydd y daith diwygio'r cwricwlwm yn gwahaniaethu rhwng darparwyr.

Dros gyfnod, gall fod yn ddefnyddiol datblygu meysydd ar-lein lle gall darparwyr fynd at arweiniad a chymorth pellach ar gyfer y cwricwlwm. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol dweud p'un a yw canllawiau, cymorth, adnoddau a syniadau wedi'u sicrhau o ran ansawdd ynteu ymarferwyr sy'n rhannu eu syniadau ac adnoddau eu hunain. Gall fod lle i'r ddau, ond mae angen nodi'u tarddiadau yn glir.

**B2: Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael amrywiaeth ean o brofiadau dysgu?**

**Efallai y byddwch am ystyried y dysgu ar draws y disgyblaethau a'r pynciau gwahanol sy'n rhan o faes dysgu a phrofiad.**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |

Mae'r ehangder a gwmpesir gan y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y chwe maes dysgu a phrofiad ac sydd wedi'u hysgogi gan y pedwar diben, yn sylweddol. Mae'n caniatáu darparwyr i gynnig profiadau dysgu i blant a phobl ifanc ar draws yr holl bynciau a disgyblaethau cyfredol, ond mae annog darparwyr i feddwl yn ofalus am y modd y maent yn cynllunio profiadau sy'n arwain at ddysgu effeithiol. Mae'r cwricwlwm drafft yn annog ffocws cryf ar ddarparwyr yn datblygu profiadau perthnasol, dilys ar draws yr holl feysydd

dysgu a phrofiad. Mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn yn awgrymu, yn gyffredinol, bod y math hwn o brofiad dysgu, wedi'i gefnogi gan addysgu o ansawdd uchel, yn helpu ennyn diddordeb plant a phobl ifanc yn effeithiol ac yn annog agweddau cadarnhaol at ddysgu ym mhob oedran[2].

Mae pob maes dysgu a phrofiad yn archwilio'n glir y ffyrdd amrywiol y gall plant a phobl ifanc gael profiad eang yn y meysydd, ac ar draws y meysydd, o 3 i 16 oed. Mae 'profiadau, gwybodaeth a sgiliau' yr adran 'cynllunio ar gyfer dysgu' yn nodi'r mathau o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau y mae angen i ddarparwyr eu cynnig i ddysgwyr ym mhob cam cynnydd. Mae hyn yn annog ymarferwyr i feddwl am y dulliau posibl amrywiol o fynd i'r afael â'r cwricwlwm ym mhob oed, ac mae'n cynnwys negeseuon pwysig am ddulliau amlddisgyblaethol a dulliau mwy arwahanol wrth i ddysgwyr symud drwy'r continwwm. Os yw darparwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda ac yn gallu cael cymorth proffesiynol priodol wrth ddylunio'u cwricwlwm, dylai fod yn bosibl i'r holl ddysgwyr gael ystod eang o brofiadau dysgu a fydd yn eu harwain at wireddu pedair egwyddor y cwricwlwm.

**B3: Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i arbenigo mewn disgyblaeth neu bwnc penodol yn 14 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |

Mae'r canllawiau drafft yn darparu fframwaith cenedlaethol addas i ddarparwyr adeiladu arnynt er mwyn datblygu'u cwricwla eu hunain. Un o'r nodau datganedig yw i Cwricwlwm i Gymru 2022 ganiatáu ar gyfer ehangu'r dysgu, ac i ddarparwyr fod yn fwy hyblyg o ran eu dulliau gweithredu. Mae'r canllaw cyffredinol yn dweud yn glir nad yw canllawiau'r meysydd dysgu a phrofiad wedi'u bwriadu i ddarparu maes llafur hollgynhwysfawr neu gyflawn. Bydd arweinwyr ysgol yn gallu addasu a theilwra eu cwricwlwm i fodloni anghenion eu dysgwyr. Mae'r canllawiau drafft yn galluogi darparwyr i ddylunio cwricwlwm yn cwmpasu'r holl feysydd dysgu a phrofiad sy'n cyfoethogi ac yn ehangu profiadau ei ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys y cyfleuster i'r holl ddysgwyr ganolbwyntio'n bwrpasol ar ddisgyblaethau neu bynciau sy'n addas i'w hanghenion, eu dyheadau o ran gyrfa a'u dymuniadau.

Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael buddion cadarnhaol cwricwlwm eang, difyr a chyfoethogol sy'n cwmpasu'r holl feysydd dysgu a phrofiad, hyd yn oed os nad ydynt yn dymuno dilyn llwybr cymhwyster ym mhob un ohonynt. Bydd astudio'r holl feysydd dysgu a phrofiad hyd at 16 oed yn galluogi dysgwyr i gynnal set eang o ddiddordebau a phrofiadau am gymaint o amser â phosibl, sy'n darparu ystod eang o ddewisiadau ôl-16 iddynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried sut y gall darparwyr ddarparu dewisiadau pwrpasol, difyr ar gyfer meysydd nad yw dysgwyr wedi dewis arbenigo ynddynt.

Ni ellir edrych ar y cwricwlwm 14-16 ar wahân i'r cylch nesaf o ddatblygu cymwysterau. Mae'n hanfodol hefyd fod y fframwaith cymwysterau yn helpu dysgwyr i ddangos hyd a lled eu dysgu. Mae'n bosibl y gellid cyflawni hyn drwy barhau dysgu a phrofiadau o fewn cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

[2] Estyn (2018b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2017-18.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn_Annual%20Report_Accessible_Welsh_2018.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

Mae'r cwricwlwm wedi culhau er anfantais i ddysgwyr dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2018, adroddom:

- Mae'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn fwy cyfyngedig nag ydoedd ddwy flynedd yn ôl
- Mae llawer o ysgolion yn gostwng nifer y pynciau opsiwn er mwyn caniatáu rhagor o amser cwricwlwm a phwyslais ar gyfer Saesneg, Mathemateg, Cymraeg, Gwyddoniaeth a'r Dystysgrif Her Sgiliau – yn sgil newidiadau i fesurau perfformiad.
- Mae'r dewis o gyrsiau galwedigaethol wedi ei leihau ac mae hyn wedi cael effaith ar addasrwydd y cwricwlwm sydd ar gael i lawer o ddysgwyr bregus
- Yn gyffredinol, nid yw ysgolion yn hyrwyddo'r dewis llawn o gyrsiau technegol neu alwedigaethol sydd ar gael mewn colegau addysg bellach neu gan ddarparwyr eraill i'r holl ddysgwyr.
- Mae effeithiolrwydd cyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn amrywio gormod rhwng ysgolion.
- Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n darparu ystod eang o gyngor ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth am brentisiaethau, er enghraifft. Yn aml, mae hyn am nad yw ymarferwyr yn gwybod digon am y llwybr hwn[3].

Mae'r canllawiau drafft yn rhoi'r ymreolaeth i ddarparwyr osgoi rhai o'r diffygion hyn ac ystyried angen eu dysgwyr, naill ai eu hunain neu mewn partneriaeth â rhai eraill.
Fel y nodwyd mewn adrannau eraill o'r ymateb hwn, mae pob maes dysgu a phrofiad yn pennu'n glir beth yw'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr yn yr ystod oedran hon. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried sut bydd cymwysterau yn newid i fodloni anghenion y cwricwlwm newydd. Mae'r cwricwlwm y mae darparwyr yn ei ddylunio a'r cymwysterau y mae dysgwyr yn ymgofrestru ar eu cyfer yn endidau cysylltiedig, ond ar wahân. Byddai'r canllawiau yn grymuso darparwyr i ddylunio cwricwlwm a fydd yn bodloni anghenion eu dysgwyr ac yn arwain at lwybrau addas ar gyfer ystod lawn y dysgwyr yn eu hysgolion neu leoliadau.

Wrth fodloni'r angen am addysg gytbwys, mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael y rhyddid i fynegi'u hunigolrwydd a mynd ar drywydd eu diddordebau a'u hoffterau. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad manylach i ddarparwyr fel eu bod yn gallu deall yr hyblygrwydd a fwriedir o ran llwybrau a fydd ar gael i ddysgwyr fel rhan o'r cwricwlwm hwn. Mae bodloni deilliannau cyflawniad cam cynnydd 5 ar draws yr holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob maes dysgu a phrofiad yn annhebygol o fod yn ddisgwyliad rhesymol na buddiol gan lawer o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae angen eglurder o ran beth yw ystyr 'profiad ystyrlon' yn yr agweddau hynny ar y cwricwlwm nad yw dysgwyr yn dewis canolbwyntio arnynt ar gyfer cam cynnydd 5. Gall hyn gynnwys profiadau a chyrsiau nad ydynt yn arwain at gymwysterau ffurfiol, ond y gellir eu hachredu mewn ffordd ystyrlon fel y gwelir eu bod yn bwysig i ddysgwyr, ymarferwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill. O ystyried natur gyffredinol iechyd a lles, er enghraifft, mae'n hanfodol bwysig y bydd profiadau dysgu mewn Iechyd a Lles yn parhau i'r holl ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, ni waeth am unrhyw ddewisiadau y maent yn eu gwneud yn 14 oed, er mwyn eu cynorthwyo drwy gyfnod y glasoed a'u paratoi ar gyfer bywyd oedolyn.

Yn ogystal, mae'r canllawiau drafft yn cynnwys cyfeiriad at addysg gyrfaoedd (gweler hefyd yr ymateb i B5 a B9). Ar hyn o bryd mae dyletswydd i ddysgwyr 13 i 16 oed gael rhaglen addysg gyrfaoedd ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y darpariaethau deddfwriaethol a fydd eu hangen yn y dyfodol. Mae Estyn o'r farn fod addysg gyrfaoedd yn nodwedd fuddiol o brofiad dysgwyr ac mae'n elfen werthfawr y dylid ei chadw.

[3] Estyn (2018c) *Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Vulnerable%20learners%20cy.pdf Darllenwyd ar: 17/06/2019

**B4: Nod *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yw helpu ymarferwyr ac athrawon i ddylunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd yr hyblygrwydd a chefnogaeth ar gael i ymarferwyr ac athrawon wneud hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| X | | | | |

Mae'r canllawiau drafft yn darparu fframwaith sy'n gefnogol i ymarferwyr ac athrawon. Mae'n rhoi'r hyblygrwydd iddynt i ddylunio'u cwricwlwm i fodloni anghenion eu cymunedau eu hunain. Bydd llawer o ddarparwyr yn croesawu hyn. Fodd bynnag, bydd hyn yn mynnu arweinwyr cryf, hyderus sy'n ddigon beiddgar i ail-ddychmygu natur y cwricwlwm y maent yn ei gynnig a chymryd risgiau pwyllog er budd eu dysgwyr. Er enghraifft, gallai ailystyried y ffordd y mae staff yn cydweithio i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ac i ddatblygu mwy o hyblygrwydd wrth amserlennu a threfnu dosbarthiadau fod yn her arbennig i lawer o ysgolion uwchradd. Bydd angen i arweinwyr gael prosesau hunanwerthuso cadarn ar waith fel sail i'w cynllunio ar gyfer gwella'r ysgol. Bydd cefnogaeth gan arweinwyr a chyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer adeiladu'u gallu i arwain yn ffactor hanfodol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru 2022 yn llwyddiannus (gweler yr ymateb i B13).

Hyd yma, mae ysgolion cynradd wedi ymateb yn fwy hyblyg wrth ddechrau rhoi cynnig ar ystod o ddulliau gweithredu gwahanol i'w ffyrdd presennol o weithio. Un mater penodol i ysgolion uwchradd fydd taro'r cydbwysedd cywir rhwng cynnig cwricwlwm eang, cyfoethog yn cael ei arwain gan ddibenion, a'r angen i fod â ffocws penodol ar bynciau/ disgyblaethau at ddiben cymwysterau. Er enghraifft, bydd angen cymorth ar lawer i feithrin gallu eu staff i gyflwyno profiadau dysgu sy'n wahanol i ddulliau gweithredu presennol. Bydd angen mynediad at ddysgu ac adnoddau proffesiynol perthnasol o ansawdd uchel ar arweinwyr a staff.

Er mwyn i ymarferwyr ac athrawon deimlo bod cefnogaeth iddynt ddylunio cwricwlwm sy'n benodol ar gyfer eu plant a phobl ifanc, bydd darparwyr yn gwerthfawrogi cael canllawiau cynnar oddi wrth Lywodraeth Cymru ar newidiadau i fesurau atebolrwydd ac agweddau eraill ar ddiwygio addysg ehangach. Bydd y wybodaeth hon yn annog arweinwyr i fod yn feiddgar i ddarparu'r hyblygrwydd i'w staff i ddylunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio'n fanylach ar anghenion a diddordebau plant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd, mae'r cwricwlwm mewn llawer o ysgolion yn rhy gul oherwydd ymateb ysgolion i fesurau atebolrwydd presennol. Fel y soniwyd yn ein hymateb i A4, bydd angen i'r canllawiau ddweud yn glir nad yw trefniadau asesu i'w defnyddio gan awdurdodau lleol a sefydliadau haen ganol at ddibenion atebolrwydd.

**B5: Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) a themâu trawsbynciol eraill (e.e. y dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol, sgiliau ehangach, gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg cydberthynas a rhywioldeb)?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |

**Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol)**
Mae Estyn yn croesawu'r canllawiau statudol drafft sy'n pennu'n glir y gofyniad i ddarparwyr ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn y meysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, gellid gwneud cyfeiriadau cryfach at y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn yr adran 'Cynnydd' yn y canllawiau. Er y ceir cyfeiriad at y gofyniad i ddarparwyr gynllunio ar gyfer cynnydd yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio'r darllenydd at yr adran hon.

Nododd ein Hadroddiad Blynyddol[4] diweddaraf ddiffygion pwysig mewn darpariaeth ysgolion ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm:

- Mae angen i bron i chwarter o ysgolion [cynradd] wella'r ffordd y maent yn cynllunio i ddisgyblion ddefnyddio medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm (tud.29)
- yn y mwyafrif o ysgolion [uwchradd], nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da mewn cyd-destunau heblaw am wersi mathemateg (tud.39)
- [yn hanner yr ysgolion uwchradd] mae'r ddarpariaeth yn anghyson ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion, yn enwedig ysgrifennu, a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau yn gynyddol mewn cyd-destunau dilys (tud.44)
- [mewn ysgolion pob oed a gynhelir] nid yw disgyblion yn y cyfnod uwchradd yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm (tud.52).

Er nad ydynt yn ganllawiau statudol, maent yn amlinellu'r bwriad i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol barhau i fod ar gael i gynorthwyo darparwyr â'u cynllunio. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn mynd i'r afael â'r bylchau hyn. Bydd yn bwysig ystyried cryfhau'r cyfeiriad at ddefnyddioldeb y fframwaith hwn yn y dogfennau canllawiau newydd.

Yn gyffredinol, mae'r meysydd dysgu a phrofiad yn cydnabod pwysigrwydd datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm a dechrau archwilio hyn yn yr adran 'datblygu cwricwlwm eang a chytbwys'. Mae'r rhan fwyaf yn archwilio rhai o'r cyfleoedd ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol a bydd hyn yn annog darparwyr i feddwl yn ofalus am y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd hyn wrth iddynt ddylunio'u cwricwla lleol. Byddai'n fuddiol ystyried y modd gorau i gynorthwyo ymarferwyr i sicrhau bod cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i gyfnerthu a chymhwyso'r medrau pwysig hyn ar lefel sy'n gymesur â gallu a dealltwriaeth gyffredinol dysgwyr. Er enghraifft, bydd hyn yn osgoi ymarferwyr yn meddu ar ddisgwyliadau is o'r medrau rhifedd y gall disgybl eu defnyddio mewn gwyddoniaeth nag y mae wedi'u cyflawni mewn gwersi mathemateg. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ysgolion uwchradd, lle mae tueddiad i ddibynnu ar ymarferwyr mathemateg, Saesneg/Cymraeg a TG/TGCh/medrau digidol i gyflwyno ac addysgu'r medrau y bydd dysgwyr wedyn yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm.

[4] Estyn (2018b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2017-18.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn_Annual%20Report_Accessible_Welsh_2018.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

Dylai canllawiau bwysleisio y dylai cyfleoedd i gymhwyso llythrennedd, rhifedd a medrau digidol fod yn rhai dilys a deillio'n naturiol o'r pwnc. Dylai canllawiau ddweud yn glir nad yw'n briodol cynnwys gweithgareddau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol â rhyw gysylltiad gwan rhyngddynt ym mhob gwers. Mae angen i'r cwricwlwm ddweud yn glir y dylai unrhyw dasgau fod yn bwrpasol a chyfoethogi'r hyn sy'n cael ei addysgu.

Mae'r canllawiau drafft yn amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer ymarferwyr i alluogi dysgwyr i ddatblygu'u medrau cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut na ble y bydd y medrau hyn yn cael eu haddysgu'n benodol.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gweld y fframwaith cymhwysedd digidol fel cyfwerth digidol y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Maent yn deall ac yn cefnogi'r syniad o'r fframwaith fel offeryn i arwain sut maent yn datblygu cymhwysedd digidol dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Dealltwriaeth y rhan fwyaf o ymarferwyr yw (mewn ysgolion uwchradd), fod ymarferwyr Saesneg/Cymraeg yn addysgu medrau Saesneg/Cymraeg a bod ymarferwyr mathemateg yn addysgu medrau mathemategol. Gall darparwyr eraill ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr wedyn gyfnerthu a chymhwyso'r rhain fel medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Yn ddealladwy, felly, mae disgwyliad gan lawer y bydd rhywun yn rhywle yn addysgu medrau digidol i ddysgwyr (llinynnau'r FfCD) y gall ymarferwyr eraill ddarparu cyfleoedd wedyn i ddisgyblion eu cyfnerthu a'u cymhwyso er mwyn datblygu'u cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, yr unig linyn o'r fframwaith cymhwysedd digidol sy'n ymddangos mewn maes dysgu a phrofiad yw 'data a meddwl cyfrifiadurol', a gynhwysir mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae cyfleoedd i ddatblygu elfennau o'r tri llinyn arall (dinasyddiaeth, rhyngweithio a chydweithio, a chynhyrchu) yn ymddangos yn achlysurol mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill, ond mae cyfeiriadau'n annelwig ac nid ydynt yn sicrhau parhad a dilyniant. Yn ogystal, pan fydd meysydd dysgu a phrofiad eraill yn cyfeirio at ddatblygu medrau digidol, maent yn nodi cysylltiadau gyda Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r rhain yn gamarweiniol, gan eu bod yn cynnwys cyfeiriadau anghywir at agweddau y maent yn tybio eu bod yn ymddangos mewn maes dysgu a phrofiad, ond nad ydynt. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau mewn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu at 'Ddatblygu medrau technolegol i ymchwilio' a 'Thechnoleg ddigidol wrth greu a dylunio'.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gall y canllawiau sicrhau addysgu pob un o linynnau'r fframwaith cymhwysedd digidol. Efallai mai'r nod hirdymor yw i bob ymarferydd a gweithwyr addysg proffesiynol eraill fod yn ddigon hyfedr i addysgu'r medrau digidol sy'n angenrheidiol ar gyfer eu maes dysgu a phrofiad eu hunain. Fodd bynnag, tan hynny, mae angen i'r cyfrifoldeb am addysgu'r holl fedrau digidol yn benodol gael ei osod yn rhywle heblaw fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. Bydd hyn yn osgoi'r perygl na fydd rhai disgyblion yn caffael yr ystod lawn o fedrau digidol oherwydd nad yw elfennau o'r fframwaith cymhwysedd digidol wedi'u haddysgu'n systematig neu'n gynyddol. Yr hyn sy'n arbennig o bwysig, ac sy'n peri cryn bryder, yw addysgu diogelwch ar-lein yn benodol. Er bod hyn yn amlwg yn rhan bwysig iawn o rôl pob ymarferydd ar draws pob maes dysgu a phrofiad, byddai ei gynnwys fel elfen benodol o faes dysgu a phrofiad yn cryfhau ei sefyllfa. Rydym yn awgrymu mai'r maes dysgu a phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg yw'r lle gorau i addysgu'r holl fedrau digidol.

**Themâu trawsbynciol eraill**

At ei gilydd, mae'r canllawiau'n cyflwyno sail resymegol gydlynus ar gyfer yr elfennau trawsbynciol fel rhan o ddatblygu cwricwlwm cyfoethog a pherthnasol. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth i labelu'r themâu trawsbynciol hyn. Yn y canllawiau cyffredinol, daw'r agweddau hyn o dan y pennawd 'elfennau ac ystyriaethau trawsbynciol eraill'. Pan fydd y darllenydd yn symud at y meysydd dysgu a phrofiad, mae'r un agweddau o dan y

pennawd 'datblygu cwricwlwm eang a chytbwys' a chyfeirir atynt fel 'cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd'. Gallai hyn beri dryswch i ddarllenydd dechreuol. Os yw darllenydd yn mynd ymlaen yn syth at ddogfennau'r meysydd dysgu a phrofiad, mae'n colli'r sail resymegol y tu ôl i gynnwys pob un o'r elfennau trawsbynciol. Gall gwybodaeth bwysig gael ei cholli, er enghraifft y diagram yn dangos nodweddion, priodoleddau a gwerthoedd y medrau ehangach.

Ar ychydig iawn o achlysuron, nid yw'r iaith, a'r ystyr a fwriedir felly, yn ddigon eglur ar gyfer yr holl ymarferwyr, er enghraifft:

> 'effaith yr adwaith rhwng y cydberthnasau amrywiol hyn'(tud.14) wrth ddisgrifio dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a dadansoddiad dysgwyr o'r dimensiwn Cymreig a'r persbectif rhyngwladol.
> 'mabwysiadu prosesau beirniadol a rhesymegol i ddadansoddi a deall sefyllfaoedd' (tud.15) wrth ddiffinio meddwl yn feirniadol a datrys problemau.

Yn y fformat presennol, mae cyfeiriadau at y themâu trawsbynciol yn britho'r ddogfen canllawiau gyfan a phob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae hyn yn arwain at ailadrodd a hefyd at amrywiaeth o ran ymagwedd at y cynnwys a ddarperir. Er mwyn sicrhau y sylweddolir pwysigrwydd y themâu hyn, byddai'n fwy buddiol dod â'r seiliau rhesymegol yn y ddogfen canllawiau at ei gilydd gydag enghreifftiau o bob maes dysgu a phrofiad gyda'i gilydd mewn un lleoliad. Bydd hyn yn helpu osgoi unrhyw effaith negyddol ar y ffordd y gwelir eu pwysigrwydd.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**
Roedd trefniadau traddodiadol addysg rhyw a chydberthynas yn aml yn canolbwyntio gormod ar elfennau biolegol y glasoed. Mae Estyn yn croesawu cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol yn y cwricwlwm newydd. Bydd ei gyflwyno fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd statudol yn helpu ehangu'r profiad dysgu a chynyddu'r pwyslais a roddir ar hawliau, cydberthynas, tegwch ac emosiynau.

Mae'r canllawiau cyffredinol drafft yn cyfeirio'n ddefnyddiol at benawdau'r testunau a geir yng nghanllaw technegol Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) ar gyfer addysg rhywioldeb[5]. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at y canllaw technegol na'i ddiffiniad a gytunwyd yn rhyngwladol. Byddai cynnwys y rhain yn y dogfennau canllawiau drafft yn awgrymu symud i ffwrdd oddi wrth fodelau traddodiadol a phwysleisio symudiad a ddiogelir at y dyfodol tuag at ymagwedd yn seiliedig ar hawliau, yn canolbwyntio ar rywedd ac wedi'i llywio gan dystiolaeth.

At ei gilydd, mae'r dogfennau canllawiau ar gyfer y meysydd dysgu a phrofiad yn egluro'n ddefnyddiol sut maent yn cyfrannu at ofynion newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE). Bydd y rhain yn cynorthwyo ymarferwyr i ddeall eu cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ar gyfer RSE. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy o gysylltiadau ag RSE ar draws y camau cynnydd yn yr adrannau 'profiad, gwybodaeth a sgiliau' ym mhob maes dysgu a phrofiad. Byddai hyn yn helpu sicrhau'r hawl i gael RSE wrth i blant dyfu, a galluogi ymarferwyr ymhellach i ddylunio cwricwlwm arloesol sy'n ehangu a dyfnhau profiad dysgwyr o RSE mewn ffordd ddatblygiadol briodol.

**Addysg Grefyddol**

[5] UNESCO (2018) *International technical guidance on sexuality education: An evidence-informed approach.* [.pdf] Ar gael yn: https://unesdoc.unesco.org/in/documentViewer.xhtml?v=2.1.196&id=p::usmarcdef_0000260770&file=/in/rest/annotationSVC/DownloadWatermarkedAttachment/attach_import_d8d4de18-19d0-4a35-8eb2-ab5eaa5ca5d3%3F_%3D260770eng.pdf&updateUrl=updateUrl1673&ark=/ark:/48223/pf0000260770/PDF/260770eng.pdf.multi&fullScreen=true&locale=en#%5B%7B%22num%22%3A47%2C%22gen%22%3A0%7D%2C%7B%22name%22%3A%22XYZ%22%7D%2C0%2C842%2C0%5D Darllenwyd ar: 10/06/2019

Mae Estyn yn cefnogi cynnwys addysg grefyddol ym maes dysgu a phrofiad Y Dyniaethau. Bydd rhoi addysg grefyddol mewn maes dysgu a phrofiad yn cryfhau safle'r pwnc yn y cwricwlwm statudol. Mae'r cysyniadau a'r medrau mewn addysg grefyddol yn cyfrannu'n glir at y pedwar diben, ac yn fwyaf penodol wrth ddatblygu ein plant a'n pobl ifanc i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus.

Gellir nodi cyfleoedd i gynnwys ystod eang o ddysgu a phrofiadau a addysgir yn draddodiadol mewn gwersi Addysg Grefyddol yng nghamau cynnydd profiadau, gwybodaeth a sgiliau yng nghwricwlwm drafft Y Dyniaethau. Bydd hyblygrwydd gan ddarparwyr i benderfynu p'un a yw'r cysyniadau a'r medrau hyn yn cael eu haddysgu mewn gwersi addysg grefyddol ar wahân neu mewn ffordd fwy integredig.

Gellir gweld agweddau ar addysg grefyddol yn glir hefyd yn y meysydd dysgu a phrofiad Iechyd a Lles a'r Celfyddydau Mynegiannol, a nodir y cysylltiadau hyn yn fras yn y ddogfen ddrafft. Gellid cryfhau'r cysylltiadau rhwng y meysydd dysgu a phrofiad ymhellach wrth i ymarferwyr ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r rhyngddibyniaethau rhyngddynt.

Mae Estyn yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu fframwaith addysg grefyddol i gynorthwyo ymarferwyr i gyflwyno addysg grefyddol, a gobeithio y caiff ei dderbyn gan SACRE fel y Maes Llafur Cytûn. Dylai'r ddogfen hon adlewyrchu mor fanwl ag y bo modd y datganiadau profiadau, gwybodaeth a sgiliau yng nghanllawiau drafft Y Dyniaethau, gan alluogi ymarferwyr i weld y cyswllt uniongyrchol rhwng y ddwy ddogfen. Rhagwelir y bydd y Maes Llafur Cytûn yn cryfhau'r cymorth penodol i bwnc ar gyfer ymarferwyr, a fydd yn ddefnyddiol i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr a allai fod yn cyflwyno agweddau ar addysg grefyddol am y tro cyntaf.

**Y Dimensiwn Cymreig a'r Persbectif Rhyngwladol**

Mae Estyn yn croesawu'r ymrwymiad cadarn sydd wedi'i wneud yn y cwricwlwm drafft i gynnwys dimensiwn Cymreig yn addysg pob dysgwr. Rydym yn cefnogi'r syniad y dylai datblygu dealltwriaeth dysgwyr o Gymru a Chymreictod gysylltu â phersbectif rhyngwladol fel eu bod yn caffael gwerthfawrogiad o le Cymru yn y byd. Mae'r elfen drawsbynciol hon o'r cwrcicwlwm yn hyrwyddo pwysigrwydd meithrin dealltwriaeth disgyblion o hyn. Rydym yn cefnogi'r nod i sicrhau'r elfennau hyn o'r cwricwlwm fel cyfrifoldeb pob ymarferydd. Mae'r eglurhad yn yr 'elfennau ac ystyriaethau trawsbynciol eraill' yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r hyn a olygir gan y dimensiwn Cymreig a'r persbectif rhyngwladol.

Fodd bynnag, er bod y canllawiau penodol ar gyfer yr holl feysydd dysgu a phrofiad yn cyfeirio at y Dimensiwn Cymreig a'r Persbectif Rhyngwladol, mae lefel y manylder a gynhwyswyd yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, mae canllawiau ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol, ac Iechyd a Lles, yn darparu awgrymiadau ymarferol ar gyfer cyflwyno'r agweddau hyn yn eu maes dysgu a phrofiad, tra bod Mathemateg a Rhifedd yn darparu sylfaen fwy damcaniaethol ar gyfer cynnwys yr elfennau hyn. Gall ymagwedd ddamcaniaethol yn unig annog ymarferwyr rhag archwilio'n fwy trylwyr y potensial i wella profiad, gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr yn y themâu trawsbynciol hyn. Byddai ymarferwyr yn croesawu canllawiau mwy ymarferol, yn enwedig ar ddechrau'r trefniadau cwricwlwm newydd, lle, i lawer, y bydd cynnwys yr elfen hon o'r cwricwlwm wrth iddynt feddwl, cynllunio a chyflawni addysgu a dysgu yn eithaf anghyfarwydd. Byddai ystyriaeth bellach o'r modd y gellid cyfleu'r posibiliadau cyffrous o gyflwyno persbectif lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i addysgu a dysgu yn fwy effeithiol i ddarparwyr ac ymarferwyr yn gwella'r canllawiau presennol.

Mae cyfeiriadau at y themâu trawsbynciol hyn yn y camau cynnydd ar gyfer dysgu neu yn y profiadau, gwybodaeth a sgiliau yn amrywio'n fawr hefyd rhwng meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, mae'r dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol yn

ymddangos yn gryf ym maes Y Dyniaethau, ond mae'n llai amlwg mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Mathemateg a Rhifedd. Gallai hyn arwain at ragdybio fod y dimensiwn Cymreig, a phersbectif rhyngwladol, yn elfen bwysicach o rai meysydd dysgu a phrofiad nag eraill.

Yn amlwg, mae maes dysgu a phrofiad Y Dyniaethau yn cynnig llawer o gyfleoedd cyfoethog ar gyfer dysgu ymestynnol am hanes, daearyddiaeth, crefydd a diwylliant busnes yng Nghymru ddoe a heddiw. Gallai hyn fanteisio'n ddefnyddiol ar gyfleoedd i ddatblygu a chyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o ddatblygiad diwydiant ac entrepreneuriaeth yng Nghymru, ac ystyriaeth o sut mae hyn yn perthnasu i'r darlun economaidd cenedlaethol a rhyngwladol. Fodd bynnag, mae digon i'w astudio yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill hefyd. Er bod creu cysylltiadau gwan rhwng elfennau o'r cwricwlwm yn ddi-fudd, bydd ymarferwyr yn elwa o gael mwy o eglurder ac enghreifftiau yn y canllawiau i nodi cysylltiadau dilys, perthnasol â'r dimensiwn Cymreig a'r persbectif rhyngwladol yn gyson dda ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad nag a ddarperir ar hyn o bryd yn y cwricwlwm drafft.

**Sgiliau Ehangach**
Mae'r adran yn y trosolwg ar hyrwyddo medrau ehangach dysgwyr yn gryno a dealladwy i ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr o bob oed. Mae'n mynegi'n glir fuddion i ddysgwyr yn sgil datblygu ystod eang o fedrau. Ceir cysylltiadau clir â'r agenda medrau ehangach cyfredol mewn addysg, felly mae'n debygol y bydd ymarferwyr yn gyfarwydd â'r pedwar o fedrau a nodwyd, yn ogystal â llawer o'r nodweddion, priodoleddau a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â nhw. Mae Estyn yn croesawu'r ffocws parhaus hwn ar ddatblygu medrau ehangach dysgwyr, ar yr amod bod dysgu'n digwydd trwy brofiadau dilys ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae camddealltwriaeth wrth weithredu'r cwricwlwm presennol wedi arwain weithiau ar roi gormod o bwyslais ar ddatblygu medrau ar draul gwybodaeth a dealltwriaeth. Dylai'r canllawiau annog darparwyr ac ymarferwyr i gyflawni cydbwysedd priodol rhwng datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ym mhob maes dysgu.

**Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith**
Mae'n ddefnyddiol bod y canllawiau drafft yn cynnwys penawdau priodol i egluro'r pedwar maes allweddol ym mhob maes dysgu a phrofiad i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith (dysgu o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur, cysylltu'r maes dysgu a phrofiad â gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, deall cyfleoedd ôl-16 ac addysg uwch). Mae'r rhain yn darparu ffocws clir ar gyfer cynllunio mewn ysgolion.

Mae ychydig o feysydd dysgu a phrofiad yn rhoi manylion arbennig o ddefnyddiol am yrfaoedd a gwybodaeth am y farchnad lafur yn eu meysydd (Celfyddydau Mynegiannol; Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu mewn perthynas ag ieithoedd rhyngwladol), neu am gysylltu eu maes â gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith (Celfyddydau Mynegiannol, Y Dyniaethau, Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, a Mathemateg a Rhifedd). Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn darparu enghreifftiau perthnasol a defnyddiol o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y maes dysgu a phrofiad i ddarparu man cychwyn ar gyfer cynllunio mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau hyn o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'u copïo'n uniongyrchol yn adrannau canllawiau'r holl feysydd dysgu a phrofiad eraill. Nid yw hyn o gymorth gan nad yw'n cefnogi cynllunio ar gyfer cynnydd wrth ddatblygu medrau dysgwyr neu ddarparu ysgogiad perthnasol ar gyfer gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r adran â'r pennawd 'Deall cyfleoedd ôl-16 ac addysg uwch' yn generig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad a cheir diffyg manylion ynddi ar hyn o bryd. Ni fydd hyn yn

helpu cynnydd i'r sector ôl-16 ym mhob maes dysgu a phrofiad. Mae yma gyfle i gynnwys sectorau ôl-16 a Gyrfa Cymru ym mhob un o'r meysydd dysgu a phrofiad er mwyn datblygu'r manylion ar lwybrau cynnydd ar gyfer dysgwyr. Bydd yr ymagwedd hon yn helpu i ehangu haeriad yr adran hon i ddarparu cyngor ac arweiniad i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, er enghraifft drwy egluro'r prentisiaethau, cyrsiau addysg bellach a chyfleoedd addysg uwch sydd ar gael.

Byddai'n helpu hefyd i fapio ystod y llwybrau sydd ar gael i ddysgwyr ag anghenion a galluoedd gwahanol. Mae Estyn wedi adrodd nifer o weithiau mai'r unig lwybr a gyflwynir yw dychwelyd i'r chweched dosbarth, astudio Safon Uwch a mynd i'r brifysgol[6] [7]. Nid yw ysgolion yn gwneud digon i hyrwyddo'r ystod lawn o gyrsiau technegol neu alwedigaethol mewn colegau addysg bellach neu brentisiaethau mewn darparwyr dysgu yn y gwaith i'r holl ddysgwyr. Mae effeithiolrwydd cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd yn amrywio gormod rhwng ysgolion gan mai dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n darparu ystod helaeth o gyngor i ddysgwyr, yn cynnwys gwybodaeth am brentisiaethau.

Mae'r adran 'Dysgu o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur' yn y canllaw drafft Iechyd a Lles yn rhy eang ac nid yw'n ymwneud â'r modd y gall y maes dysgu a phrofiad hwn ddefnyddio cynghorwyr gyrfaoedd a rhanddeiliaid allanol eraill i archwilio'r agwedd drawsgwricwlaidd hon. Byddai'n ddefnyddiol i'r canllaw hwn gyfeirio at dystiolaeth adroddiad thematig Estyn ar yrfaoedd a phenderfyniadau gwybodus, er enghraifft, wrth ddarparu arweiniad ar y modd y dylid cyflwyno hyn i ddysgwyr, neu hyd yn oed wrth gyfeirio at y fframwaith presennol Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Mae'r enghreifftiau cynnydd yr un fath ag ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol, ac felly nid yw hyn yn cynnig unrhyw ddulliau gwahanol o gyflwyno'r maes pwnc eang iawn hwn.

Mae'r adran 'profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith' yn aneglur yn y rhan fwyaf o ddogfennau canllawiau'r maes dysgu a phrofiad. Gellid cryfhau'r adran hon trwy gynnwys ychydig o enghreifftiau penodol ar gyfer pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad yn hytrach na sylwadau cyffredinol am gydweithio a chael mynediad at gyflogwyr. Nid yw'r adran hon wedi'i gwahaniaethu digon i gynrychioli natur nodedig profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer pob maes o'r cwricwlwm.

Un dull gweithredu posibl fyddai diwygio'r 'Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (GBG)' i alluogi dysgwyr i ddatblygu medrau a gwneud penderfyniadau gwybodus. Byddai'n ddefnyddiol addasu'r fframwaith hwn i gynnwys yr ystod oedran 3 – 11 a'i adnewyddu i fod yn fwy perthnasol i ddysgwyr 11 – 16 oed, gydag enghreifftiau wedi'u ddiweddaru i gefnogi cynllunio i fod yn fwy apelgar ac arloesol.

Gallai fframwaith diwygiedig wneud defnydd buddiol o ganfyddiadau o adroddiadau thematig Estyn ar yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith.[8] [9] Dylai bwysleisio pwysigrwydd gwella cwmpas ac ansawdd cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd gan ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth o ansawdd da i staff, adeiladu trefniadau cydweithio gyda

---

[6] Estyn (2018c) *Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/effaith-y-mesur-dysgu-sgiliau-ar-ddysgwyr-sy'n-agored-i-niwed Darllenwyd ar: 19/06/2019

[7] Estyn (2017b) *Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Careers%20-%20Thematic%20survey%20report%20cy.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

[8] Estyn (2017b) *Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Careers%20-%20Thematic%20survey%20report%20%28002%29_0.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

[9] Estyn (2012) *Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Penderfyniadau%20gwybodus%3A%20Gweithredu%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20fframwaith%20Gyrfaoedd%20a%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20Byd%20Gwaith%20-%20Hydref%202012.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

darparwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith, a datblygu gwerthusiad ysgolion o'u darpariaeth trwy ddarparu penderfyniadau gwybodus, er enghraifft yn y modd y maent yn darparu ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, profiad gwaith neu gyrchu gwybodaeth ddiweddar am gyrsiau, cyfleoedd gyrfa a llwybrau dilyniant at addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Addysg Hawliau Dynol**

Mae Estyn yn croesawu cynnwys addysg hawliau dynol fel thema drawsbynciol yn y cwricwlwm newydd. Mae'r cynnig a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn cynnig cam pwysig ymlaen o ran bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru mewn perthynas ag Erthygl 29 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) [10] [11] [12] [13].

Yn gyffredinol, mae'r ddogfen canllawiau drafft gyffredinol yn cyfeirio'n fuddiol at yr egwyddorion a amlinellwyd gan Ddatganiad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol – i ddysgu am hawliau dynol, dysgu drwy hawliau dynol a dysgu ar gyfer hawliau dynol. Fel thema drawsbynciol, dylai'r egwyddorion hyn fod yn nodwedd benodol a chreiddiol o bob maes dysgu a phrofiad, ond mae hyn yn rhy amrywiol yn y dogfennau drafft.

Mae'r maes Dyniaethau yn cysylltu ei adrannau deilliannau cyflawniad a phrofiad, gwybodaeth a sgiliau yn glir a phenodol â CCUHP ar draws pob un o'i gamau cynnydd. Bydd yn galluogi ymarferwyr i ymgorffori hawliau wrth iddynt ddylunio'u cwricwlwm lleol a bydd yn eu helpu i nodi cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Mae gan Iechyd a Lles rôl allweddol o ran helpu darparwyr i ddylunio cwricwlwm lleol a bodloni gofynion statudol newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd y cydraddoldeb statws rhwng iechyd corfforol, lles emosiynol a lles cymdeithasol yn cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu cwricwlwm sy'n cysylltu'n agos â meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r deilliannau cyflawniad yn gwneud cysylltiadau cryf â'r cysyniad hawliau, cydraddoldeb a pharch. Canfu adroddiad Estyn *Iach a Hapus* fod yr ysgolion gorau yn ymgorffori parch at hawliau dynol fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan at hyrwyddo iechyd da a llesiant da[14]. Mae'n bwysig, felly, fod y negeseuon allweddol yn cael eu hadlewyrchu drwy'r cwricwlwm cyfan ac mewn strategaethau addysgu a dysgu. Byddai cyfeiriadau cryfach at hawliau dynol yn yr adran profiad, gwybodaeth a sgiliau, wedi'u cysylltu'n agos â'r camau cynnydd, yn helpu ymarferwyr i ddyfnhau profiad dysgwyr o iechyd, llesiant a hawliau mewn modd datblygiadol briodol.

Mae'r pwysigrwydd a briodolir i ddysgu drwy'r Celfyddydau Mynegiannol ac amdanynt yn cefnogi egwyddorion addysg hawliau dynol yn y canllawiau drafft cyffredinol. Maent yn darparu fframwaith grymusol i ymarferwyr ddylunio cwricwlwm sy'n ehangu archwilio hawliau, diwylliant, hunaniaeth a chyfiawnder drwy'r Celfyddydau Mynegiannol i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw cyfeiriadau at CCUHP yn cael eu defnyddio mewn cyd-destun bob tro, a gallai arwain at rywfaint o ddryswch. Gellid cryfhau'r adran hon drwy gyflwyno sail resymegol gryf ar gyfer y modd y mae'r celfyddydau yn cefnogi'r CCUHP a hawliau dynol cyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, sef y gall y celfyddydau fod yn rym dros newid personol a chymdeithasol).

[10] Erthyglau 4, 29 a 42 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
[11] Erthygl 2 o Ddatganiad y CU ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol
[12] Erthygl 26 o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
[13] Erthygl 13 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.
[14] Estyn (2019) *Iach a Hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Healthy%20and%20Happy%20report%20Cy_0.pdf Darllenwyd ar: 12/06/2019

Mae Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyflwyno addysg hawliau dynol. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn adlewyrchu egwyddorion Erthygl 29 o CCUHP yn dda, yn ymgorffori darpariaeth i hyrwyddo llythrennedd, medrau cyfathrebu, medrau datrys anghydfodau a pharch at ddiwylliannau a hunaniaethau gwahanol trwy ddyfnhau'r defnydd o ieithoedd. Ceir cysylltedd da â meysydd dysgu a phrofiad eraill, ond gellid sôn yn fwy penodol am archwilio hawliau, cyfiawnder a hyrwyddo cydraddoldeb yn yr adran profiadau, sgiliau a gwybodaeth o'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig, sef 'Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd'.

Mae'r pum hyfedredd a bennir mewn Mathemateg a Rhifedd yn gwneud cyfraniad dealledig at hyrwyddo hawliau dynol ac addysg hawliau dynol. Mae angen pob un o'r hyfedreddau hyn a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn cyd-destunau hawliau dynol go iawn, fel y defnydd o ystadegau a graffiau ledled y byd i gymhwyso rhesymu rhesymegol, nodi patrymau, cyfleu gwybodaeth a datrys problemau. Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau â'r meysydd dysgu a phrofiad eraill yn cynorthwyo ymarferwyr yn benodol i ymgorffori addysg hawliau dynol ar draws y cwricwlwm. Er y bydd llawer o ymarferwyr yn manteisio'n naturiol ar y cyfryw gysylltiadau i ddarparu addysgu a phrofiadau dysgu dilys, byddai'n ddefnyddiol archwilio cysylltiadau ymhellach rhwng Mathemateg a Rhifedd a chysyniadau allweddol eraill, fel newid hinsawdd, cydraddoldeb rhywiol, maetheg a gweithgarwch corfforol.

Mae Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn gwneud cyfraniad cryf at addysg hawliau dynol. Mae'r adran 'Datblygu cwricwlwm eang a chytbwys' yn darparu cysylltedd clir â hawliau, yn enwedig mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn hyrwyddo'r defnydd o ymholi gwyddonol a dealltwriaeth wyddonol i gysylltu dysgwyr â'u hamgylcheddau naturiol a chymdeithasol; gan wneud defnydd o feddwl dylunio a medrau cyfrifiadurol i helpu datrys problemau go iawn. Gallai cysyniadau hawliau dynol fod yn fwy pendant yn yr elfen hon i hyrwyddo cysylltiadau pellach rhwng addysgu a phrofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft gyda'r Dyniaethau a Mathemateg a Rhifedd.

**B6: Sut y gellid mireinio'r fframweithiau trawsgwricwlaidd (*__Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol__*) er mwyn helpu i feithrin llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd?**

**__Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol__**

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol[15] yn darparu fframwaith ystyriol a defnyddiol ar gyfer hyrwyddo medrau llythrennedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Ychydig iawn o fireinio sydd ei angen arno i'w wneud yn addas i'r diben fel offeryn i gefnogi datblygu a chymhwyso medrau llythrennedd dysgwyr ar draws meysydd dysgu a phrofiad newydd.

Yn gyffredinol, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd gwahanu'r llinyn llefaredd yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ôl 'gwrando' a 'siarad' i adlewyrchu trefnu'r wybodaeth a medrau 'derbyn' a 'chynhyrchu' yn y maes dysgu a phrofiad yn y datganiadau o'r 'hyn sy'n bwysig'. Ar hyn o bryd, mae caffael a defnyddio geirfa yn fedr 'rhaglen astudio' ac nid yn fedr 'fframwaith llythrennedd a rhifedd'. Fel rhan o unrhyw ddiwygiad i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, dylid ystyried y berthynas bwysig rhwng caffael iaith a datblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Dylai fod cyfeiriad priodol hefyd at destunau gweledol ac amlgyfrwng ar draws holl

[15] Llywodraeth Cymru (2013b) *Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/ce/44/26/0c/4830422ab1e6a190b11feac9/to-support-schools-in-introducing-the-national-literacy-and-numeracy-framework.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

linynnau llythrennedd y fframwaith llythrennedd cenedlaethol i gefnogi datblygu a chymhwyso medrau dysgwyr mewn cyd-destunau dilys.

Mae ychydig iawn o agweddau ar y llinynnau llythrennedd yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd cyfredol a fyddai'n elwa o gael eu mireinio, fel rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu ymwybyddiaeth seinyddol dysgwyr yn y llinyn darllen. Gellid cyflawni hyn trwy gynnwys:

- 'chwarae â sain a geiriau', a 'rhythm, odl a chyflythreniad' yn y fframwaith diwygiedig fel sylfeini hanfodol wrth ddatblygu a chymhwyso medrau darllen cynnar dysgwyr (nid eu medrau llefaredd yn unig)
- gwybodaeth a defnydd o 'sillafau' (yn ychwanegol at 'gychwyniad a therfyniad o ran sillafau) fel strategaethau darllen i gysoni â'r deilliannau cyflawniad arfaethedig ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yng ngham cynnydd 1.

Yn ogystal, rydym yn argymell ailystyried yr elfen 'trefnu syniadau a gwybodaeth' yn y llinyn ysgrifennu er mwyn sicrhau:

- bod disgwyliadau i ddysgwyr i adolygu a gwella eu gwaith yn gyson â'r cynnydd yn y deilliannau cyflawniad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu a'r cynigion asesu ar gyfer asesu gan gyfoedion a hunanasesu
- bod disgwyliadau i ddefnydd dysgwyr o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi'u medrau ysgrifennu yn cysoni'n briodol â'r fframwaith cymhwysedd digidol (Llywodraeth Cymru, 2018)[16].

Yn yr un modd, mae angen rhai mân addasiadau yn elfen rhifedd y fframwaith i sicrhau bod yr holl gynnwys a amlinellwyd yn y fframwaith yn cyfateb i'r cam cynnydd cyfatebol yn neilliannau cyflawniad Mathemateg a Rhifedd. Gyda'r fframwaith yn cael ei gysylltu â chamau cynnydd erbyn hyn yn hytrach na blynyddoedd ysgol, mae'n bwysig bod y canllawiau yn cynorthwyo ysgolion uwchradd yn arbennig i gydlynu eu cynllunio er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gyfnerthu a chymhwyso'u medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

**<u>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</u>**

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer hyrwyddo medrau digidol dysgwyr ar draws meysydd dysgu a phrofiad newydd. Am fod hwn yn fframwaith cymharol newydd, dim ond ychydig o fireinio sydd ei angen arno i'w wneud yn addas i'r diben fel offeryn i gefnogi datblygu a chymhwyso medrau digidol dysgwyr.

Byddai ymarferiad i sicrhau bod y fframwaith cyfan yn cysoni'n briodol â chamau cynnydd y cwricwlwm newydd yn fuddiol. Yn ogystal, mae angen egluro ychydig o elfennau yn y llinyn Data a Meddwl Cyfrifiadurol, gan gynnwys y defnydd o'r term 'setiau data' yn yr elfen llythrennedd gwybodaeth a data ym Mlwyddyn 5 a 6 (ar hyn o bryd) a allai fod yn aneglur i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr. Mae angen i gyfeiriadau at y defnydd o daenlenni ar gyfer Blwyddyn 5 a 6 (ar hyn o bryd) fod yn gliriach ac mae angen i'r camau cynnydd gynnwys creu a defnyddio fformiwlâu. Yn y golofn Blwyddyn 3 defnyddir y term 'dadansoddi', ac yna ym Mlwyddyn 4 'tynnu gwybodaeth' cyn mynd yn ôl i 'dadansoddi' ym Mlwyddyn 5. Ym Mlwyddyn 7, mae'n dweud y dylai dysgwyr ym Mlwyddyn 7 greu cronfa ddata neu daenlen – dylai hyn ddarllen fel 'cronfa ddata a thaenlen'.

---

[16] Llywodraeth Cymru (2018) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol - Canllawiau.* [.pdf] Ar gael yn: https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/a0/dc/74/b1/509041c8b9497b8d00356cdb/canllawiau-r-fframwaith-cymhwysedd-digidol-2018.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

Gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r modd y gall canllawiau'r cwricwlwm helpu darparwyr i sicrhau bod yr holl fedrau a amlinellir yn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael eu haddysgu i ddysgwyr yn systematig fel eu bod yn gallu'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm. Un ateb priodol fyddai cynnwys addysgu medrau digidol fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth a thechnoleg. Rydym wedi archwilio'r sail resymegol y tu ôl i'r awgrym hwn yn fanylach yn yr ymatebion i gwestiynau B5 a'r adran yn C5 ar wyddoniaeth a thechnoleg.

**B7: Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd canllawiau'r *meysydd dysgu a phrofiad* yn helpu plant yn ystod blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | X | | |

Mae Estyn yn croesawu'r syniad y dylai natur weithredol a thrwy brofiad y cyfnod sylfaen fod yn nodwedd o'r ymagwedd at addysgu a dysgu ar draws gontinwwm cyfan y cwricwlwm o 3 i 16, lle bo'n briodol, ac nid yn unig ar gyfer dysgwyr rhwng 3 a 7 oed. Fodd bynnag, ni chaiff y bwriad hwn ei gyfleu'n ddigon effeithiol o hyd drwy'r iaith a ddefnyddir yn y canllawiau drafft.

Pan fydd y canllawiau drafft yn cyfeirio at addysgeg fwriadedig y cyfnod sylfaen yng nghamau cynnydd 1 a 2, mae hyn yn ddefnyddiol i ddarparwyr. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, ceir cyfeiriad at 'ddysgu arbrofol amlsynhwyraidd' ac 'amgylchedd dysgu cyfoethog dan do ac yn yr awyr agored'. Mae hyn yn helpu i bennu disgwyliadau o'r modd y bydd ymarferwyr ac athrawon yn cyflwyno'r cwricwlwm ac yn canolbwyntio ar bwysigrwydd dulliau uniongyrchol o ddysgu. Daw'r cydbwysedd rhwng dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn a dysgu wedi'i arwain gan oedolion drwodd yn gryfach mewn rhai meysydd dysgu a phrofiad nag eraill. Er enghraifft, mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cyfeirio'n ddefnyddiol at 'wahanol fathau o chwarae ac amrywiaeth o weithgareddau creadigol a gychwynnir gan blant ac a arweinir gan oedolion'.

Fodd bynnag, nid yw'r angen hwn am gydbwysedd wedi'i fynegi'n ddigon clir yn yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys adran gyffredinol yn y canllawiau am y disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm i ddysgwyr o 3 i 7 oed. Ymhellach, dylai pwysigrwydd dull dysgu trwy brofiad ar gyfer yr holl ddysgwyr, lle bo'n briodol, fod yn fwy eglur. Dylai dogfennau'r cwricwlwm bwysleisio na ddylai'r math hwn o ddysgu fod yn gyfyngedig i ddisgyblion iau, ond y dylai'r arfer dda bresennol mewn addysgu a dysgu yn y cyfnod sylfaen gael ei hymestyn a'i defnyddio ar draws pob oedran, fel y bo'n briodol.

Bydd yn ofynnol i ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg gynnar a ariennir gyflwyno'r cwricwlwm hefyd. Mae ymarferwyr yn y lleoliadau hyn yn tueddu peidio â bod â statws athro cymwysedig ac, er eu bod yn cael cymorth gan ymarferwyr ymgynghorol yr awdurdod lleol neu athro o ysgol leol, bydd angen lefel uchel o gymorth ar lawer ohonynt i gynllunio'u cwricwlwm eu hunain er mwyn bodloni anghenion y plant. Gallai fod yn ddefnyddiol addasu ac adeiladu ar broffil presennol y cyfnod sylfaen i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd. Bydd gwneud hyn mewn ffordd sy'n nodi'n glir beth yw cerrig milltir datblygiad plentyn a'r mathau o weithgareddau a dysgu disgwyliedig sy'n cefnogi'r cerrig milltir hyn yn darparu cymorth buddiol i ymarferwyr yn y sector nas cynhelir. Er mwyn i ymarferwyr gynllunio'u cwricwlwm, mae'n bwysig eu bod yn cael cymorth i sylweddoli bod continwwm dysgu cyn cam cynnydd 1 ac y bydd y rhan fwyaf o

blant wedi gadael eu lleoliadau cyn cyrraedd y cam cynnydd hwn. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gellid gwneud hyn yn eglur yng nghanllawiau'r cwricwlwm.

Ar draws y meysydd dysgu a phrofiad, ceir cyfeiriad cyfyngedig at ddarpariaeth barhaus, estynedig a ffocysedig. Yn 2017, adroddom nad yw'r amgylcheddau dysgu mewn llawer o ysgolion cynradd wedi'u trefnu'n dda ac nad yw ymarferwyr yn llwyr ddeall yr hyn y mae darpariaeth barhaus, estynedig a ffocysedig o ansawdd da yn ei olygu[17]. Dylai'r canllawiau atgyfnerthu'r agweddau pwysig hyn ar ddysgu'r cyfnod sylfaen er mwyn sicrhau bod ymarferwyr ac athrawon yn deall ystod y strategaethau addysgu a dysgu sy'n sail i gamau cynnydd 1 a 2 yn arbennig, a thu hwnt, lle bo'n briodol.

**B8: Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu ac yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar gyflymder priodol i'w datblygiad o fewn y maes dysgu a phrofiad rhwng 3 ac 16 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Mae strwythur clir ar waith a ddylai helpu ymarferwyr ac athrawon eraill i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar gyflymder sy'n briodol ar gyfer eu lefel datblygiad. Yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu a phrofiad, mae'r deilliannau cyflawniad ym mhob un o'r camau cynnydd yn eang iawn, tra'u bod yn fwy penodol o lawer mewn Mathemateg a Rhifedd. Gellir defnyddio'r ddau fodel i nodi pan fydd disgybl yn barod i symud i'r cam cynnydd nesaf ond gall y gwahaniaeth mewn cyflwyniad fod yn ddryslyd i ymarferwyr. Gall y gwahaniaeth hwn beri anghysonderau hefyd mewn dehongliadau ymarferwyr a darparwyr o'r deilliannau cyflawniad. Gall fod yn ddefnyddiol ystyried cynnwys sail resymegol glir i egluro'r ymagweddau gwahanol, neu i ystyried eu gwneud yn fwy cyson â'i gilydd.

Mae'n galonogol nodi bod ymarferwyr ac arbenigwyr ledled Cymru yn gweithio i ddiweddaru deunyddiau'r Llwybrau Dysgu fel rhan o'r gwaith ehangach i ddiwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu. Gobeithio y bydd hyn yn mynd i'r afael â'r mater sydd wedi'i godi ynglŷn â cham cynnydd 1, sef nad yw'n hygyrch i lawer o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig. Byddai'n ddefnyddiol iawn i'r holl ymarferwyr yn y ddau sector pe bai deunyddiau'r Llwybrau Dysgu yn cysylltu mor agos ag y bo modd â'r camau cynnydd perthnasol yn y cwricwlwm newydd. Bwriedir i'r cwricwlwm hwn fod yn gontinwwm dysgu cynhwysol. Byddai cysylltu'r dogfennau'n uniongyrchol yn cryfhau'r continwwm a natur gynhwysol y cwricwlwm newydd, ac yn helpu annog ymarferwyr ym mhob sectror i elwa o arbenigedd ei gilydd. Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn B7, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cael cymorth i sylweddoli bod continwwm dysgu cyn cam cynnydd 1. Efallai na fydd rhai dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrws ac mewn ysgolion arbennig yn gwneud cynnydd ymhellach na cham cynnydd 1. Byddai'n fuddiol pe gellid dweud hyn yn eglur yng nghanllawiau'r cwricwlwm.

**B9: Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn darparu sail er mwyn helpu pobl ifanc i wneud cynnydd ar ôl 16 oed?**

[17] Estyn (2017a) *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Active%20and%20experiential%20learning_W_Accessible_0.pdf Darllenwyd ar: 17/06/2019

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |

Mae'r canllawiau drafft yn galluogi darparwyr i ddylunio cwricwlwm a fydd yn cynnal diddordeb ac yn ysgogi dysgwyr, ac sydd â'r potensial i'w helpu i wneud cynnydd ymhell ar ôl 16 oed am fod y deilliannau cyflawniad ar draws y meysydd dysgu a phrofiad yn uchelgeisiol a heriol. Bydd astudio'r holl feysydd dysgu hyd at 16 oed yn cynorthwyo datblygiad dysgwyr a'u galluogi i ddangos y pedwar diben. O ganlyniad, byddant mewn sefyllfa well i wneud dewisiadau hyderus a bod yn llwyddiannus mewn addysg ôl-16, hyfforddiant neu waith a thu hwnt.

Gan y bydd angen i ddarparwyr ddylunio'u cwricwlwm eu hunain a arweinir gan ddibenion, y nhw fydd yn gallu sicrhau orau y gall yr holl ddysgwyr ddilyn y llwybr mwyaf priodol at raglenni astudio pellach neu at gyflogaeth. Trwy gyflwyno'u cwricwlwm, dylai darparwyr sicrhau bod dysgwyr cyn-16 yn barod ar gyfer astudiaeth bellach, trwy eu dewisiadau cwricwlwm ac wrth ddatblygu medrau. Dylid cryfhau'r canllawiau i gynorthwyo darparwyr i ddylunio a chynllunio'u cwricwlwm penodol. Dylai darparwyr ochel rhag cyfyngu'r gwaith paratoi ar gyfer ôl-16 i ffocws clir ar arholiadau cyn-16.

Bydd y gallu i arbenigo mewn meysydd pwnc neu ddisgyblaethau yn bwysig iawn i lawer o ddewisiadau a datblygiadau dysgwyr yn y dyfodol. Felly, bydd angen i ysgolion a darparwyr ôl-16 eraill sicrhau, yn ogystal ag ehangder astudio, bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddewis o blith ystod addas o feysydd pwnc neu ddisgyblaethau ar bwyntiau mynediad amrywiol sy'n cefnogi'u meysydd astudio a'u gwaith yn y dyfodol. Bydd angen i lwybrau dilyniant ar gyfer yr holl ddysgwyr gael eu hystyried yn ofalus.

Mae hefyd yn bwysig ystyried ehangder llwybrau sydd ar gael i'r ystod gyfan o ddysgwyr o 14 oed ymlaen, gan gynnwys symud ymlaen at gymwysterau a phrofiadau a all gynorthwyo'r medrau cyflogadwyedd a'r anian sydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes. Dylai'r canllawiau archwilio'n llawnach sut gellir cynnwys y sector ôl-16 a chyflogwyr yn ehangach i gefnogi'r pontio i addysg a hyfforddiant pellach a chyflogaeth wrth i ddysgwyr gyrraedd cam cynnydd 5.

Mae llawer o adroddiadau thematig Estyn dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi canolbwyntio ar y cwricwlwm 14-19 wedi nodi bod angen i ddarparwyr gynorthwyo pobl ifanc i ddod yn ddysgwyr annibynnol trwy ddatblygu medrau sy'n allweddol i lwyddiant fel dysgwyr hunanddibynnol, yn ogystal â chydweithio'n well gyda cholegau a darparwyr eraill i ddarparu cwricwlwm eang a difyr. I'r dysgwyr hynny nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio Safon Uwch neu'n symud ymlaen at addysg bellach, nid yw'n eglur yn y canllawiau drafft sut bydd y cymwysterau a'r profiadau yn eu dwy flynedd olaf mewn addysg orfodol yn eu galluogi i symud ymlaen at lwybrau galwedigaethol neu dechnegol diddorol. Mae angen i unrhyw gymwysterau newydd a ddatblygir yng ngham cynnydd 5 adlewyrchu medrau sydd eu hangen gan gyflogwyr a chynnwys ystod o ddarparwyr ôl-16 er mwyn sicrhau bod llwybrau dilyniant priodol at addysg a hyfforddiant ehangach. Rydym yn croesawu'r cyfle i ystyried hyn ymhellach ac yn fanylach yn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru.

Mae'r cyfnod o gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion uwchradd hyd at gwblhau'r cymwysterau cyntaf gan y garfan gyntaf o ddysgwyr 16 oed (2022 - 2027) yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gysylltu ynghyd y diwygiadau mawr a geir yng Nghenhadaeth ein Cenedl a'r diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) wrth greu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i drafod sut i ddatblygu'r cymwysterau, medrau, profiadau ac anian sydd eu hangen er mwyn i'r rhai 16 oed fod yn ddysgwyr llwyddiannus, hyderus

sy'n barod am addysg, hyfforddiant neu waith yn y dyfodol. Gellid cynorthwyo'r pontio hwn drwy gydweithio ac ymgysylltu agos rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, sectorau AHO, rheoleiddwyr a chyflogwyr i sicrhau bod dysgwyr yn gorffen eu haddysg orfodol yn arddangos yr anian a amlinellir yn y pedwar diben.

**B10: Dylid rhoi blaenoriaeth i asesiadau ffurfiannol yn y cwricwlwm newydd. I ba raddau y mae'r cynigion asesu yn hyrwyddo'r egwyddor hon?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | X | | |

Mae'r canllawiau yn nodi'n fuddiol, er mwyn cyflawni agwedd gadarnhaol a myfyriol tuag at roi a derbyn adborth ar gyfer dysgu, 'mae'n bwysig bod lleoliadau ac ysgolion yn sefydlu diwylliant dysgu cryf, ynghyd ag amgylchedd o ymddiriedaeth a pharch'. Fodd bynnag, dylai'r canllawiau fod yn glir fod angen dull systematig, ysgol gyfan ar ddarparwyr i ddatblygu'r medrau gwerthuso hyn gyda dysgwyr. Byddai'n fuddiol pwysleisio bod rhai i hyn ddechrau'n gynnar yn addysg dysgwyr a pharhau trwy gydol eu cyfnod mewn addysg.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi buddion arferion fel asesu gan gyfoedion a hunanasesu. Fodd bynnag, nid yw pwysigrwydd sicrhau bod arferion asesu ffurfiannol yn rhan reolaidd a gwerthfawr o addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn ddigon clir. Byddai'n ddefnyddiol pwysleisio y dylai asesu ffurfiol fod yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel. Mewn gormod o ysgolion, nid oes dealltwriaeth dda gan ymarferwyr o ddiben a buddion asesu ffurfiannol da i gynorthwyo dysgwyr i nodi'u cryfderau a gwybod sut i wella eu gwaith. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol sicrhau bod gan ddarparwyr fynediad at ddysgu ac adnoddau proffesiynol dibynadwy o ansawdd uchel a fydd yn eu galluogi i ddyfnhau'u dealltwriaeth o ddibenion a buddion asesu ffurfiannol.

**B11: Mae'r cynigion asesu yn cynnig dull cymedroli ehangach – *gan gefnogi deialog broffesiynol o ran natur cynnydd, dewis gweithgareddau dysgu ac asesu priodol, yn ogystal â sicrhau dealltwriaeth gyffredin o enghreifftiau o gyflawniad yng nghyd-destun y Deilliannau Cyflawniad.***

**Sut byddech yn rhagweld y byddai eich lleoliad /ysgol yn rhoi'r dull hwn ar waith? Yn eich barn chi, pa gymorth pellach y byddai ei angen?**

Gallai'r canllawiau adlewyrchu'n well rai o'r materion cymedroli allweddol a amlygwyd gan ein tystiolaeth arolygu[18]. Nododd ein hadolygiad:

- mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw ystod y dystiolaeth yn cwmpasu'r holl feysydd yn ddigonol, yn dangos tystiolaeth o ddrafftio dysgwyr na lefel cymorth gan yr athro wrth gwblhau gwaith.
- nid oes digon o ffocws ar werthuso gwaith dysgwyr sydd ar y ffin rhwng y lefelau presennol.

Dylai'r canllawiau fynnu bod ymarferwyr yn ystyried ystod lawn gwaith dysgwyr, yn cynnwys gweithlyfrau cyfan a drafftiau, gan gymedroli o fewn darparwyr a rhwng darparwyr. Byddai hyn yn eu galluogi i gael golwg fwy cyflawn o safonau dysgwr. Dylent ddweud yn glir hefyd y dylai'r holl ymarferwyr gael eu cynnwys yn llawn mewn gweithgareddau cymedroli fel bod pawb yn datblygu dealltwriaeth dda o gyflawniad o fewn yr holl gamau cynnydd perthnasol. Bydd hyn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr i ddeall cymedroli a mabwysiadu ymagwedd fwy defnyddiol at gymedroli fel bod ymarferwyr o fewn ac ar draws darparwyr yn dod i gytundeb bras ynglŷn â beth yw safonau a chynnydd effeithiol ar gyfer dysgwyr o bob oed ac ym mhob cam cynnydd.

Mae'r canllawiau yn ddefnyddiol o ran dweud yn glir fod 'Datblygu disgwyliadau eang, cyffredin mewn perthynas â'r Deilliannau Cyflawniad a ddiffinnir ar gyfer y Camau Cynnydd ar y continwwm dysgu yn rhan allweddol o'r broses.' Maent yn cyfeirio'n fuddiol at gymedroli mewn lleoliadau ac ar draws lleoliadau. Mae arferion presennol yn aml yn canolbwyntio ar glwstwr o ysgolion cynradd gan gymedroli cynnydd dysgwyr gydag un ysgol uwchradd. O ganlyniad, nid yw'n glir sut mae grwpiau o ysgolion uwchradd yn datblygu dealltwriaeth gyson o beth yw cynnydd. Bydd hyn yn hanfodol o dan y trefniadau cwricwlwm newydd, yn enwedig mewn perthynas â Chamau Cynnydd 4 a 5. Dylai'r canllawiau fod yn glir y dylai grwpiau o ysgolion uwchradd gymedroli dysgu hefyd er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb dealltwriaeth o safonau a chynnydd dysgwyr.

## B12: Pa faterion ymarferol sy'n effeithio ar leoliadau ac ysgolion y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt os caiff y cynigion asesu eu rhoi ar waith?

Nododd ein Hadroddiad Blynyddol 2017-18 mai *"Asesu yw'r agwedd wannaf ar addysgu"* (tud.43)[19] mewn ysgolion uwchradd. Nid yw athrawon yn sicrhau bod pob math o asesiad, p'un a gaiff ei gynnal gan yr athro neu gan ddisgyblion eu hunain, yn ddefnyddiol neu'n cael effaith gadarnhaol ar wella safonau. Er mwyn sicrhau'r strategaethau a amlinellir yn y cynnig asesu hwn, mae angen ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod gan arweinwyr ac ymarferwyr ddealltwriaeth gryf o ystod eang o weithdrefnau asesu ffurfiannol a'r buddion a ddaw yn eu sgil.

---

[18] Estyn (2016) *Cymedroli asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3: adolygiad o gywirdeb a chysondeb.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Teacher%20assessment%20-%20Cy.pdf Darlenwyd ar: 19/06/2019

[19] Estyn (2018b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2017-18.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn_Annual%20Report_Accessible_Welsh_2018.pdf Darllenwyd ar: 17/06/2019

Bydd yn bwysig i ddarparwyr ddatblygu polisïau ac arferion sy’n hyrwyddo arferion asesu ffurfiannol effeithiol. Dylai’r rhain amlinellu strategaethau sy’n adeiladu ar fedrau a dealltwriaeth dysgwyr yn systematig a chynyddol.

Dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol ochel rhag rhoi pwysau allanol ar ddarparwyr i fabwysiadu arferion asesu di-fudd, fel modelau ffit orau neu leihau cyflawniad dysgwyr i niferoedd ar gyfer atebolrwydd allanol.

Mae’r adran ‘Cynllunio ar gyfer asesu’ yn nodi’n bwysig, yn y ‘blynyddoedd cynnar’, fod angen i ymarferwyr chwilio am dystiolaeth o ddysgu sydd wedi’i wreiddio mewn gweithgareddau bod dydd. Fodd bynnag, ni ddylai’r neges ynghylch asesu’r hyn y gall dysgwr ei wneud ‘yn gyson ac yn annibynnol’ ymwneud ag addysg gynradd yn unig. Mae hon yn egwyddor bwysig wrth asesu dealltwriaeth dysgwyr ym mhob oedran, a byddai’n ddefnyddiol cydnabod hyn.

**B13: Yn eich barn chi, pa oblygiadau sy’n deillio o *ganllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* o ran eich anghenion *datblygiad proffesiynol* chi a’ch cydweithwyr mewn perthynas â’r canlynol:**

- **yr effaith ar arfer addysgegol**
- **goblygiadau cynllunio ar gyfer cwricwlwm wedi'i lywio gan ddibenion**
- **gofynion dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag addysgeg**
- **datblygu trefniadau cydweithredu yn yr ysgol a rhwng ysgolion**
- **meysydd dysgu proffesiynol penodol sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad**
- **cyfleoedd i ddulliau ymholi proffesiynol ategu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd?**

Mae mynd i’r afael ag anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr ac arweinwyr ysgol, yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o addysgeg, yn hollbwysig i weithredu Cwricwlwm i Gymru 2022 yn llwyddiannus. Gallai fod yn fuddiol pe bai’r canllawiau yn dweud yn glir na fydd newid y cwricwlwm ar ei ben ei hun yn arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

Mae addysgu rhagorol yn cyfuno strategaethau addysgegol effeithiol iawn gyda chyd-destunoli’r strategaethau hyn o fewn pynciau a meysydd dysgu gwahanol. Mae gan yr ymarferwyr mwyaf effeithiol wybodaeth bynciol ddofn ac maent yn dewis y dull gweithredu gorau ar gyfer y gweithgaredd neu bwnc. Yn gywir, mae arweinwyr yn aml yn rhoi pwyslais tebyg ar staff yn dysgu am ddatblygiadau diweddar yn eu cyfnod neu bwnc ochr yn ochr â strategaethau gwella addysgegol y ceir tystiolaeth ohonynt.

Y darparwyr mwyaf effeithiol yw’r rheini sy’n defnyddio tystiolaeth yn dda i lywio’u harfer. Maent mewn rolau cyhoeddus, yn trafod ymchwil yn rheolaidd, ac yn dysgu o arfer orau yn eu sefydliadau eu hunain a sefydliadau eraill. Yn y darparwyr hyn, mae ymarferwyr yn chwilfrydig ynghylch beth sy’n gweithio orau ar gyfer eu disgyblion. Maent yn meddwl yn feirniadol am addysgeg, yn darllen yn eang am addysgu a dysgu, ac yn trafod eu gwaith gydag ymarferwyr eraill. Mae staff yn ymdrechu i ddeall y “pam” a’r “sut” mewn addysgu, yn ogystal â’r “beth”.

Wrth i newidiadau i’r cwricwlwm gyflymu, bydd yn bwysig i ddarparwyr[20]:

[20] Estyn (2018a) *Gwella addysgu.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Improving%20teaching.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

- feithrin diwylliant o ymholi ac ymgysylltu
- ymddiried yn eu staff i wneud dewisiadau proffesiynol
- meddu ar bolisi ystafelloedd dosbarth agored
- creu cyfleoedd ar gyfer deialog broffesiynol ynghylch addysgu
- rhoi addysgu ac addysgeg fel eitemau agenda yn rheolaidd mewn cyfarfodydd uwch arweinwyr a staff
- defnyddio diwrnodau datblygiad proffesiynol yn gyfleoedd strategol i archwilio mentrau pellach mewn addysgu a dysgu
- creu amser dynodedig i athrawon gymryd rhan mewn arsylwadau cymheiriaid ac ymchwil weithredu
- defnyddio ymchwil i lywio'r penderfyniadau a'r strategaeth ar gyfer eu sefydliad
- meddu ar bolisïau ar gyfer addysgu, adborth a'r cwricwlwm y mae pob un o'r staff yn eu deall ac yn cadw atynt
- sefydlu perthnasoedd proffesiynol yn eu rhanbarth a thu hwnt
- gofyn am gyngor arbenigol, ac yn gweithredu yn unol â hynny.

**Goblygiadau cynllunio ar gyfer cwricwlwm wedi'i ysgogi gan ddibenion**
Ychydig o ymarferwyr presennol sy'n gyfarwydd â chynllunio a datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Yn benodol, nid yw'r medrau ganddynt i ddatblygu cwricwlwm wedi'i ysgogi gan ddibenion, er y bydd cymhwysedd cynyddol yn hyn o beth yn tanategu'r wybodaeth a'r medrau y mae dysgwyr yn eu datblygu a'r profiad a gânt. Bydd angen cyfleoedd dysgu proffesiynol i godi gwybodaeth, medrau a chymhwysedd ymarferwyr ac arweinwyr ysgol wrth gynllunio ar gyfer cwricwlwm wedi'i ysgogi gan ddibenion. Dylai ymarferwyr gael cymorth i ystyried ystod o fodelau amgen dilys ac effeithiol. Dylid eu galluogi hefyd i ddatblygu'r hyder i gyflwyno'u cwricwlwm eu hunain, nid un sydd wedi'i ddylunio gan ddarparwyr allanol ar gyfer marchnad generig.

**Datblygu cydweithio mewn ysgolion ac ar draws ysgolion**
Dylai dysgu proffesiynol nawr ac yn y dyfodol adeiladu ar ymdrechion cydweithredol y darparwyr sydd wedi cyfranogi mewn gwaith arloesol hyd yn hyn. Mae Estyn yn croesawu datblygu cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a sefydliadau addysg uwch. Mae'r potensial gan y cydweithio hwn i gefnogi ymagweddau effeithiol at ddysgu proffesiynol sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth. Yn benodol, mae datblygiadau diweddar mewn ystod o agweddau wedi sicrhau gweithio agosach ac wedi datblygu dealltwriaeth drwy ystod o ffocysau.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- newidiadau i addysg gychwynnol a chyfnod sefydlu athrawon
- datblygu safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu
- datblygu ymagweddau cenedlaethol at ddysgu proffesiynol
- Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion

**Meysydd dysgu proffesiynol penodol yn alinio â meysydd dysgu a phrofiad**
Ar hyn o bryd, mae'r modelau cymorth ar gyfer meysydd dysgu a phrofiad penodol yn amrywio ar hyd a lled Cymru. Yn ogystal, mae'n ddyddiau cynnar o ran cynlluniau ar gyfer y rhwydweithiau Cenedlaethol newydd i gefnogi meysydd dysgu a phrofiad. Bydd cymorth effeithiol ac amserol i ymarferwyr yn allweddol i'w helpu i ddatblygu'u hymagwedd at bob maes dysgu a phrofiad ac addysgeg yn gyffredinol.

Gall Llywodraeth Cymru fod eisiau ystyried anghenion datblygiad proffesiynol ymarferwyr, yn enwedig y rheini sy'n newydd i'r proffesiwn a'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr, a fydd yn cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad newydd. Bydd anghenion gweithwyr proffesiynol yn

amrywio, gyda'r angen i rai uwchsgilio mewn gwybodaeth bynciol, tra gall fod angen i rai eraill ailystyried eu dull presennol o gyflwyno maes pwnc.

O ran y Gymraeg, byddem yn awgrymu datblygu consensws cenedlaethol ar beth yw dulliau addysgu a dysgu effeithiol ar gyfer caffael ail iaith ac ieithoedd dilynol. Dylai hyn lywio'r ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol ar gyfer yr holl ymarferwyr yng Nghymru. Mae gwella medrau ieithyddol a phrofiad ymarferwyr presennol ac ymarferwyr newydd (trwy raglenni mewn swydd ac addysg gychwynnol i athrawon), a'u dealltwriaeth o addysgu a dysgu effeithiol mewn ieithoedd, yn allweddol i:

- wireddu uchelgais Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a
- sicrhau bod pobl ifanc o bob cefndir yn deall manteision siarad o leiaf un iaith ryngwladol, a chael y cyfle i dderbyn cymhwyster addas mewn pwnc iaith dramor fodern.

Tra bod gwella medrau Cymraeg ymarferwyr a'u cymhwysedd i addysgu a defnyddio'r iaith yn effeithiol yn flaenoriaeth ym mhob ysgol cyfrwng Saesneg, byddem yn awgrymu blaenoriaethu ymarferwyr mewn ysgolion uwchradd, gan mai dyma ble mae'r her fwyaf.

**Cyfleoedd i ddulliau ymholi proffesiynol gynorthwyo cyflwyno'r cwricwlwm newydd**
Dylid defnyddio ymholi proffesiynol ochr yn ochr ag ystod o ddulliau eraill, ac mae'n un offeryn yn y continwwm o ddulliau dysgu proffesiynol. Mae ymholi proffesiynol yn hyrwyddo dysgu yn llwyddiannus mewn llawer o achosion. Mae ganddo'r potensial i feithrin hyder a brwdfrydedd ymarferwyr dros gydweithio, yn ogystal â galluogi cyfranogwyr i ddatblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn yr agweddau penodol y maent yn canolbwyntio arnynt. Mae ysgolion sydd wedi bod yn gysylltiedig fel arloeswyr dysgu proffesiynol eisoes wedi dechrau archwilio'r defnydd o'r fethodoleg hon. Bydd angen cymorth sy'n cynnwys hyfforddiant wedi'i deilwra a mentora ar ddarparwyr ac ymarferwyr sy'n newydd i'r ffordd hon o weithio. Yn benodol, bydd angen lefelau cymorth uwch ar ddarparwyr sy'n arfer cael cyfarwyddyd ac sy'n dilyn llwybrau rhagnodedig, ac nad ydynt yn hyderus ynglŷn ag ail-ddychmygu'u cwricwlwm, pan fyddant yn datblygu'r ymagwedd hon.

Yn gyffredinol, bydd angen i ddarparwyr a'r rheini sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw ymgorffori gwerthuso gwell o'r cymorth a ddarperir, a hynny er mwyn sicrhau bod yr ymagweddau a fabwysiedir yn effeithiol ac yn arwain at newidiadau sy'n gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yn ogystal â darparu cyfle i gyfranogwyr fyfyrio ar eu harfer eu hunain.

Yn ogystal, mae'n rhaid i ddarparwyr a'u partneriaid fod yn ystwyth gyda'r cymorth a gynigir er mwyn bodloni anghenion arweinwyr ac ymarferwyr ar gyfnodau datblygu gwahanol.

## B14: Pa heriau a chyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â rhoi egwyddorion y [cynigion asesu] ar waith?

Mae Adroddiad Blynyddol[21] diweddaraf Estyn yn nodi'n glir fod angen gwella arferion sy'n gysylltiedig ag asesu. Er enghraifft:

[21] Estyn (2018b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyffforddiant yng Nghymru 2017-18.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn_Annual%20Report_Accessible_Welsh_2018.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

- Mewn wyth o bob deg lleoliad (nas cynhelir) yr oedd angen eu monitro gan Estyn lle rhoddwyd barn ar safonau, nid yw plant yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu'u medrau. Mae hyn yn aml oherwydd nad yw ymarferwyr yn defnyddio asesiadau yn dda i nodi a chynllunio ar gyfer camau nesaf plant mewn dysgu.
- Mewn ysgolion uwchradd, 'Asesu yw'r agwedd wannaf ar addysgu. Nid yw athrawon yn sicrhau bod pob math o asesiad, p'un a gaiff ei gynnal gan yr athro neu gan ddisgyblion eu hunain, yn ddefnyddiol neu'n cael effaith gadarnhaol ar wella safonau'.

Mae angen ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol i sicrhau bod arweinwyr ac ymarferwyr yn gwybod beth yw diben asesu ffurfiannol a bod ganddynt ddealltwriaeth fanwl o ystod eang o strategaethau asesu ffurfiannol a'r buddion a ddaw yn sgil y rhain.

**ADRAN C**

**C1: Os hoffech ddarparu adborth penodol yn ymwneud ag un neu fwy o feysydd dysgu a phrofiad penodol, gwnewch ddetholiad ac ychwanegwch eich sylwadau isod.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Celfyddydau Mynegiannol** | **X** | **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | **X** |
| **Iechyd a Lles** | **X** | **Mathemateg a Rhifedd** | **X** |
| **Y Dyniaethau** | **X** | **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** | **X** |

**Sylwadau (os dewiswch mwy nag un maes dysgu a phrofiad, nodwch bob sylw)**

**<u>Y Celfyddydau Mynegiannol</u>**

At ei gilydd, mae'r canllawiau drafft ar gyfer maes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn mynd i'r afael yn dda â'r blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n darparu cymorth da i ddarparwyr gynllunio ar gyfer yr holl ddysgwyr o 3 i 16 oed er mwyn iddynt gael ystod eang o brofiadau yn y celfyddydau mynegiannol. Mae Estyn yn croesawu'r pwyslais o'r newydd ar y celfyddydau mynegiannol a'r cyfraniad a wnânt at feithrin creadigrwydd dysgwyr a'u hymdeimlad o les o fewn y cwricwlwm newydd. Mae'r sylwadau canlynol yn ceisio mireinio'r canllawiau hyn, yn hytrach na'i ddiwygio'n sylweddol.

Mae'r canllawiau'n cydnabod yn glir werth y celfyddydau mewn addysg mewn perthynas â'r pedwar diben, er y collir pwysigrwydd a gwerth y celfyddydau weithiau mewn testun dwys a gor-gymhleth. Mewn ychydig o achosion, mae'r cyfeiriadau at werth y celfyddydau yn rhy generig ac nid ydynt yn ymwneud yn benodol â'r cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud at ddysgu a datblygiad plant. Yn gyffredinol, byddai'n fuddiol i ymarferwyr pe bai'r iaith a'r eirfa arbenigol yn fwy penodol. Er enghraifft, gall ystyr termau arbenigol, fel 'rhannu proses greadigol', beri dryswch. Ymhellach, mae cyfeiriadau at y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn honni nad ydynt yn dilyn trywydd unionsyth. Byddai'n well dweud nad ydynt yn sefyll yn annibynnol neu na fwriedir iddynt gael eu haddysgu ar eu pennau'u hunain. Mae arddull, iaith a geiriogrwydd y cyflwyniad yn tynnu oddi wrth y wybodaeth bwysig y mae ei hangen ar ymarferwyr i gyflwyno'r cwricwlwm cyffrous a blaengar hwn.

Mae'r pedair egwyddor cynnydd yn darparu ffordd fuddiol a chlir o fynegi'r cysyniad o gwricwlwm troellog. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder yn y disgrifiad o gynnydd yn y celfyddydau sy'n rhagflaenu'r egwyddorion, a gallai arwain at gamddehongli. Er

enghraifft, gallai'r ymadrodd, 'gall dysgwyr symud yn ôl ac ymlaen yn hawdd', gael ei fynegi'n fwy buddiol fel, 'mae dysgwyr yn edrych eto ar eu medrau, yn eu mireinio a'u datblygu wrth iddynt wneud cynnydd'.

Mae'r canllawiau ar rôl y celfyddydau mynegiannol o ran darparu cwricwlwm eang a chytbwys yn rhoi ychydig o gyfeiriadau defnyddiol at gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a chwricwlaidd ehangach pwysig. Fodd bynnag, at ei gilydd, golwg braidd yn gyfyngedig o werth y celfyddydau mynegiannol fel cyfrwng dysgu y mae'r adran hon yn ei chyflwyno. Nid yw'r enghreifftiau a ddarperir yn rhoi ysgogiad digon cyfoethog i ymarferwyr ddefnyddio'r celfyddydau i helpu datblygu medrau dysgwyr mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mewn ychydig o achosion, gallai'r enghreifftiau arwain at ganlyniadau anfwriadol neu gyfyngu ar yr hyn y bydd darparwyr yn ei wneud i ddatblygu modelau arloesol i gyflwyno'r cwricwlwm. Gallai'r adran ar fedrau ehangach, er ei bod yn ddefnyddiol, elwa o roi fwy o ystyriaeth i'r modd y gall y celfyddydau ddatblygu medrau meddwl yn feirniadol, datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd ac effeithiolrwydd personol. Yn yr adran hon, mae'r cyfeiriadau yn rhy generig ac nid ydynt yn berthnasol o reidrwydd i'r celfyddydau mynegiannol. Mae terminoleg benodol yn yr adran hon yn celu'r ystyr a fwriedir weithiau, a gallai arwain at gamddehongli. Er enghraifft, nid yw'n glir beth yw ystyr 'ymdrechion moesegol i greu' neu'r cysyniad bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb 'yn gyfunol, yn holistaidd ac yn barhaus drwy gydol taith dysgwyr drwy addysg' yn ymarferol.

Mae'r canllawiau'n darparu trosolwg priodol o'r modd y bydd y maes dysgu a phrofiad yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o bersbectif cenedlaethol a byd-eang o'r celfyddydau. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae'r enghreifftiau'n darparu golwg rhy gul o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae'r pwyntiau bwled yn cyfeirio at dreftadaeth gerddorol gryf ond nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon da i'r dreftadaeth artistig, ddramatig a dawns yng Nghymru, nac yn cyfeirio at y twf diweddar ym maes ffilm a'r cyfryngau yng Nghymru. Yn ogystal, nid yw'r disgrifiad o ddysgwyr fel 'artistiaid a aned yng Nghymru' yn cipio natur amlddiwylliannol darparwyr yng Nghymru lle mae cyfran sylweddol o ddysgwyr heb eu geni yng Nghymru.

Mae canllawiau'r Celfyddydau Mynegiannol yn nodi cyfleoedd priodol i ddysgwyr ddatblygu'u dealltwriaeth o addysg cydberthynas a rhywioldeb. Fodd bynnag, nid yw'r cyfeiriad at y CCUHP yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun yr adran hon o angenrheidrwydd a gallai arwain at rywfaint o ddryswch. Mewn llawer o ffyrdd, gellid cryfhau'r adran hon trwy gyflwyno sail resymegol gryf ar gyfer y modd y mae'r celfyddydau yn cefnogi CCUHP a hawliau dynol cyffredinol drwy'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig, sef y gall y celfyddydau 'ysgogi newid personol a chymdeithasol'. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut mae hyn yn cysylltu ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Yn ogystal, nid yw'n glir p'un a yw'r wybodaeth o dan yr is-benawdau yn enghreifftiau neu'n ganllawiau penodol.

Mae'r wybodaeth yn yr adran ar roi'r maes dysgu a phrofiad ar waith yn darparu gwybodaeth bwysig i ddarparwyr ac ymarferwyr, a dylai ddylanwadu ar gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Fodd bynnag, byddai'r adran hon yn elwa o ystyried ymhellach sut gellid defnyddio'r wybodaeth hon orau i gynorthwyo ymarferwyr, yn enwedig y rhai nad ydynt yn arbenigwyr, i gyflwyno'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd, nid yw'r dulliau wedi'u mynegi'n ddigon clir a gallent ysgogi'r ymddygiadau anghywir ymhlith darparwyr. Er enghraifft, mae'r adran yn cyfeirio at ymagwedd integredig sef 'cyfuniad o gelf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol yn cael ei addysgu o fewn yr un wers' a 'gall yr holl ddisgyblaethau gael eu haddysgu mewn un wers gan un person'. Mae hyn yn ymhlygu mai hon yw'r unig ffordd neu'r ffordd orau o gyflwyno cwricwlwm celfyddydau integredig, a gallai ddylanwadu'n ormodol ar arfer. Ymhellach, mae diffyg eglurder yn y paragraff ar ddull rhyngddisgyblaethol. Gallai'r adran hon elwa o gynnwys

egwyddorion sylfaenol dylunio cwricwlwm yn y celfyddydau neu enghreifftiau o'r modd y gellid dylunio a chyflwyno cwricwlwm y celfyddydau.

Yn adrannau'r hyn sy'n bwysig, mae'r deilliannau cyflawniad yn cipio'r disgwyliadau bras o ran cynnydd. Maent yn darparu awgrymiadau defnyddiol i helpu darparwyr ac ymarferwyr i strwythuro gweithgareddau dysgu effeithiol ar gyfer dysgwyr. Mae cysyniadau cynyddu cymhlethdod, rheolaeth, dyfnder ac annibyniaeth i'w gweld yn y camau cynnydd.

Mae'r deilliannau cyflawniad, gan mwyaf, wedi'u mynegi'n glir ond gellid eu gwella pe bai'r pwyntiau canlynol yn cael eu hystyried:

- Sicrhau mwy o gysondeb o ran iaith ar draws ac o fewn adrannau'r hyn sy'n bwysig, deilliannau cyflawniad, a phrofiad, gwybodaeth a sgiliau
- Sicrhau bod cydbwysedd priodol a chyson rhwng gwybodaeth, sgiliau a phrofiad generig a gwybodaeth, sgiliau a phrofiad sy'n benodol i ddisgyblaethau
- Cynnwys 'datganiad cychwynnol' ar ddechrau pob cam cynnydd sy'n nodi pob disgyblaeth yn ôl ei henw. Byddai hyn yn osgoi ailadrodd ac yn dweud wrth ddarparwyr bod rhaid ymdrin â phob disgyblaeth yn y Celfyddydau Mynegiannol

Mae iaith y deilliannau cyflawniad yn adlewyrchu egwyddorion cynnydd yn fras. Er enghraifft, erbyn cam cynnydd 5, mae'n amlwg bod disgwyl i ddysgwyr weithio'n annibynnol a gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi. Mae'r camau cynnydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu medrau creadigol pwysig ac mae'r deilliannau cyflawniad yn cyfeirio'n fuddiol at y math o weithgarwch dysgu sydd ei angen i gynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd. I gefnogi hyn, mae'r wybodaeth am brofiad, gwybodaeth a sgiliau yn darparu cyfeiriadau buddiol at ei gilydd at gynnwys y cwricwlwm.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn adlewyrchu agweddau ar y celfyddydau y derbynnir yn gyffredinol eu bod yn ganolog i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn y celfyddydau mynegiannol. Fodd bynnag, gallai fod yn werth ystyried p'un a fyddai cynnwys cyfeiriad at fedrau yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar archwilio yn cryfhau'r datganiad hwn.

Nid yw'r rhannau ar elfennau a ffurfiau yn yr adran profiadau, gwybodaeth a sgiliau yn glir ac nid ydynt yn cynrychioli cynnwys disgyblaethau penodol yn ddigon cywir. Yn yr un modd, gallai'r cynnydd o dan 'ffurf' gyfyngu cyfleoedd i ddysgwyr. Ymhellach mae'r adrannau ar elfennau a ffurfiau yn ymddangos ar ddechrau pob cam cynnydd. Mae hyn yn tynnu oddi wrth y wybodaeth werthfawr a gynhwysir yn yr adran profiadau, gwybodaeth a sgiliau.

Nid yw'r adrannau ar gynllunio ar gyfer dysgu a chysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill ym mhob datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn darparu gwybodaeth ddigon defnyddiol. Mae ychydig o ddatganiadau yn gamarweiniol neu'n darparu enghreifftiau ffuantus. Fe'u cyflwynir fel rhestrau y gellid eu gweld fel rhai diffiniol. Gellid cyflwyno'r wybodaeth hon yn well mewn enghreifftiau o fodelau cwricwlwm neu enghreifftiau o'r modd y mae'r rhain yn cefnogi deilliannau cyflawniad penodol.

Mewn ychydig o achosion, nid yw'r deilliannau cyflawniad yn ymddangos fel petaent yn yr un drefn yn y camau cynnydd bob tro. Gallai trefn y deilliannau cyflawniad elwa o gael eu had-drefnu i sicrhau bod medrau cyffredin, gwybodaeth a dealltwriaeth yn llifo'n ddilyniannol drwy'r camau cynnydd.

**<u>Iechyd a Lles</u>**

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Iechyd a Lles yn ymdrin yn gynhwysfawr â'r holl agweddau pwysig ar iechyd a lles. Mae'r camau cynnydd yn briodol. Mae'r deilliannau cyflawniad ar gyfer pob cam yn cyfateb yn dda i'r oedran pan y gallai dysgwyr eu cyrraedd yn nodweddiadol. At ei gilydd, mae'r manylion a roddir yn ddigon cytbwys i ddarparu hawliau i ddysgwyr a chyfarwyddyd digonol i ddarparwyr heb fod yn rhy gyfarwyddol.

Mae'r deilliannau cyflawniad yng ngham cynnydd 5 yn pennu uchelgais glir ar gyfer ble fydd dysgwyr yng Nghymru yn nodweddiadol yn 16 oed er mwyn eu cynorthwyo trwy gyfnod y glasoed a'u paratoi ar gyfer bywyd oedolyn. O ystyried natur gyffredinol iechyd a lles, mae'n hanfodol bwysig bod profiadau dysgu yn Iechyd a Lles yn parhau ar gyfer yr holl ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, ni waeth am unrhyw ddewisiadau a wnânt yn 14 oed, a pha gam cynnydd bynnag y maent wedi'i gyrraedd yn 14 oed.

Yn aml, nid yw ysgolion uwchradd yn rhoi digon o amser ar hyn o bryd i iechyd a lles yng Nghyfnod Allweddol 4, drwy'r meysydd cwricwlwm presennol ar gyfer addysg gorfforol ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Canfu ein hadroddiad thematig diweddar, Iach a Hapus:

> 'Nid oes un ysgol uwchradd yn trefnu bod pob disgybl yn cael tua dwy awr o addysg gorfforol yr wythnos. Yn aml, mae ysgolion yn darparu tua dwy awr o addysg gorfforol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7, ond mae hyn yn aml yn gostwng i ddisgyblion ym Mlwyddyn 8 neu Flwyddyn 9. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'n gyffredin iawn i ddisgyblion gael awr ar y mwyaf o addysg gorfforol yr wythnos, heblaw am y gyfran fechan iawn o ddisgyblion sy'n dewis astudio cymhwyster cysylltiedig ac sydd, felly, yn cael llawer mwy o amser gweithgarwch.'

a

> 'Mae ychydig ysgolion uwchradd yn defnyddio cymwysterau i achredu dysgu'r disgyblion mewn addysg bersonol a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae dysgu yn yr ysgolion hyn yn aml yn arwain at ganolbwyntio ar gwblhau tasgau'n gysylltiedig â'r cymhwyster ac mae gwersi'n llai tebygol o gynnwys profiadau dysgu ystyrlon a diddorol am faterion iechyd a llesiant pwysig. Yn yr ysgolion hyn, mae'r pwysau ar ddisgyblion i ennill achrediad ar gyfer dysgu wedi disodli gwerth cynhenid profiadau dysgu da yn ddi-fudd'

Byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau i addasu canllawiau'r cwricwlwm i annog darparwyr i sicrhau bod pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed yn cael digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol egnïol, strwythuredig. Dylai'r canllawiau bwysleisio hefyd y dylai profiadau dysgu mewn iechyd a lles fod yn ystyrlon ym mhob oedran, ac na ddylai eu gwerth gael ei danseilio gan unrhyw bwysau i ennill cymhwyster cysylltiedig rhwng 14 ac 16 oed. Wrth gynllunio'r cyfryw weithgareddau, dylai darparwyr roi ystyriaeth i'n canfyddiadau ni.

**<u>Y Dyniaethau</u>**

Mae'r canllawiau ym maes dysgu a phrofiad Y Dyniaethau wedi dod ag ystod eang o feysydd pwnc traddodiadol at ei gilydd. Mae'n rhoi'r hyblygrwydd i ddarparwyr ddatblygu cwricwlwm y gellir ei gyflwyno mewn ffordd penodol i bwnc, ffordd amlddisgyblaethol neu integredig. Fodd bynnag, gall y defnydd o dermau arbenigol drwy'r ddogfen gyfan gyfyngu ei hygyrchedd i ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr. Er enghraifft, mae ymadroddion fel 'mynd i'r afael â phrosesau cwestiynu athronyddol' o gam cynnydd 2 yn natganiad 1 o'r hyn sy'n bwysig, a 'rhoi ystyriaeth i gwestiynau eithaf' o gam cynnydd 2 yn natganiad 2 o'r hyn sy'n bwysig, yn ddiangen o gymhleth. Nid yw eu hystyr yn glir, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr, a gall annog rhai ymarferwyr i beidio ag

ymgysylltu'n llawn â'r cysyniadau hyn. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ddefnyddio termau arbenigol drwy'r canllawiau cyfan. Byddai hyn yn cefnogi cysyllteddau rhwng meysydd dysgu a phrofiad, ac yn benodol, byddai'n fuddiol o ran cyflawni cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd.

Mae Estyn yn croesawu sefyllfa gadarn y dimensiwn Cymreig a'r persbectif rhyngwladol yn y dyniaethau, ac fe'i datgenir yn glir yn y cyflwyniad i'r maes dysgu a phrofiad hwn. *Bydd y Dyniaethau yn cynnig cyfleoedd i bob dysgwr ddysgu am ei dreftadaeth ac ymdeimlad o le drwy astudio ei gynefin a Chymru. Bydd yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl Cymru, ei chymunedau, ei diwylliant, ei thirwedd, ei hadnoddau a'i diwydiannau yn ymwneud â gweddill y byd. Bydd hyrwyddo dealltwriaeth o'r amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru hefyd yn helpu dysgwyr i werthfawrogi i ba raddau y mae'n rhan o gymuned ryngwladol ehangach. O ganlyniad, bydd y Dyniaethau yn helpu dysgwyr i weld sut mae eu stori bersonol yn rhan o ddarlun ehangach o'r gorffennol a'r presennol.*

Mae'r dyniaethau yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant, busnes, hanes a daearyddiaeth Cymru, a chael profiadau dilys yn gysylltiedig â nhw. Nodir cyfeiriadau at Gymru a'r byd ehangach yn glir yn y seiliau rhesymegol, camau cynnydd a'r adran cynllunio ar gyfer dysgu yn y maes dysgu a phrofiad hwn. Mae hyn yn dweud yn glir wrth athrawon lle gellir mynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol hyn mewn cyd-destun perthnasol ac ystyrlon ar gyfer disgyblion. Bydd hyn yn galluogi disgyblion i werthfawrogi beth mae'n ei olygu i fod yn Gymry o fewn eu lleoliad yn ogystal â sefyllfa Cymru o fewn persbectif rhyngwladol.

Bydd Estyn yn cynhyrchu adroddiad thematig yn 2020, yn ystyried y dulliau presennol o addysgu hanes a diwylliant Cymru. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo athrawon a chonsortia lleol wrth iddynt ddechrau cynllunio ar gyfer y cwricwlwm dyniaethau newydd.

Mae Estyn yn croesawu'r pwyslais a roddir ar brofiadau yn y maes dysgu a phrofiad hwn. Yn adroddiad thematig Estyn, Arfer dda yn y dyniaethau (2017) nodom:

'Mae disgyblion yn mwynhau'r amrywiaeth eang o weithgareddau a ddarperir gan athrawon a'r cyfle i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth'.

Mae'r camau cynnydd ar gyfer dysgu yn addas yn gyffredinol a dylent sicrhau bod profiadau dysgu yn y dyniaethau yn brofiadau cynyddol a heriol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur o'r ddogfen pa gyfraniad y byddai disgwyl i'r Dyniaethau ei wneud at y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a'r themâu trawsbynciol, yn enwedig y fframwaith cymhwysedd digidol.

Yn y fersiwn argraffedig o'r cwricwlwm, daw'r 'dysgu' o flaen y 'profiadau, gwybodaeth a sgiliau.' Mae'n werth ystyried a yw hyn efallai hyn ymddangos fel pe bai'n rhoi'r pwyslais ar atebolrwydd a deilliannau yn hytrach nag ar brofiad dysgwyr o'r cwricwlwm.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yr anghenion datblygiad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr, yn enwedig y rheini sy'n newydd i'r proffesiwn a'r rheini nad ydynt yn arbenigwyr a fydd yn cyflwyno'r cwricwlwm Dyniaethau newydd. Bydd anghenion gweithwyr proffesiynol yn amrywio, gyda'r angen i rai wella eu gwybodaeth bynciol, ac angen i rai eraill ailystyried eu dull presennol o gyflwyno'r maes dysgu a phrofiad hwn a'r disgyblaethau ynddo.

**<u>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh)</u>**

Mae Estyn yn croesawu integreiddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol mewn un maes dysgu a phrofiad. Rydym yn cytuno gydag egwyddor datblygu'r cwricwlwm, sy'n grymuso darparwyr i ddylunio cwricwlwm lleol, hyblyg ar gyfer eu dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn cael cytundeb eang ar draws y proffesiwn addysg ynghylch pa ddulliau addysgu a dysgu yw'r rhai mwyaf effeithiol i ddysgwyr Cymraeg mewn darparwr cyfrwng Saesneg, a pha rai yw'r rhai mwyaf effeithiol ar gyfer dysgu ieithoedd rhyngwladol.

Mae Estyn wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau ar safonau a chynnydd iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y cwricwlwm. Mae ein tystiolaeth arolygu yn dangos y canlynol:

- Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg ond ceir diffygion pwysig yn y ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2
- Mae'r trefniadau pontio ar gyfer disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn arwain at ddirywiad pellach yn eu cynnydd
- Mae angen gwelliannau i'r cynllunio ar gyfer defnyddio'r Gymraeg bob dydd ac ieithoedd tramor modern mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- Nid yw safonau'r Gymraeg mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd dwyieithog yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd addas o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4[22].

Mae hyn yn dangos yr her sylweddol sydd o'u blaenau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd i wella gwybodaeth, medrau a hyder ymarferwyr i ddatblygu rhugldder dysgwyr yn yr iaith darged a sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae angen rhoi ystyriaeth i gryfhau'r canllawiau ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu er mwyn helpu ymarferwyr a darparwyr i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Dylai'r adrannau 'cynllunio ar gyfer dysgu' yn y canllawiau adlewyrchu ymagweddau eang, cytûn at addysgu a dysgu ar gyfer ieithoedd. Byddai hyn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan sy'n mynd i'r afael ag amrywioldeb yn ansawdd profiadau dysgu iaith.

Dylai'r canllawiau bwysleisio:

- y tri medr gwrando, siarad a darllen yn y blynyddoedd cynnar o ddysgu ieithoedd ychwanegol (h.y. y cyfnod cynradd, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8),
- ysgrifennu fel medr cefnogol i'w ddatblygu'n fanylach yn y blynyddoedd dilynol, pan fydd gafael cadarn gan ddysgwyr ar 'gerddoriaeth' yr iaith.

Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu dysgu iaith mewn mamiaith/iaith gartref. Dylai'r athroniaeth sylfaenol bennu bod dysgwyr yn datblygu 'rhugldder llafar' yn Gymraeg ac mewn ieithoedd rhyngwladol. Gall gorbwyslais ar 'ysgrifennu', ac yn enwedig addysgu gramadeg, fod yn ganlyniad anfwriadol galwadau arholiadau ar y cwricwlwm ar gyfer ieithoedd, lle mae'r rhain yn pennu llawer o'r gweithgareddau y bydd dysgwyr yn ymgymryd â nhw. O ran yr economi fyd-eang fodern, mae angen dinasyddion ar Gymru sy'n gallu siarad a deall Cymraeg ac ieithoedd eraill yn hyderus. Dylai darparwyr roi ffocws newydd ar ddysgu Cymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn bennaf, yn enwedig cyfathrebu llafar a dealltwriaeth lafar. Teimlwn y dylai hyn fod yn berthnasol i ieithoedd rhyngwladol yn ogystal.

---

[22] Estyn (2018d) *Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog*. [.pdf] Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Welsh%20in%20key%20stage%202%20and%20key%20stage%203%20in%20Welsh-medium%20or%20bilingual%20schools%20Cy.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

Dylai'r dulliau addysgu a dysgu ddatblygu i fodloni oedran a chyfnod y dysgwr iaith wrth iddo symud drwy'r cyfnodau cynradd ac uwchradd. Dylent ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr edrych eto ar iaith a chystrawen flaenorol a'u hymestyn wrth iddynt symud ar hyd y continwwm dysgu. Gall fod newid sydyn o ddysgu'n seiliedig ar lefaredd yn y cyfnod cynradd, i gyfarwyddyd penodol yn y cyfnod uwchradd, nad yw'n cysoni'r cynnwys na'r dulliau addysgu a dysgu rhwng y cyfnodau. Gall hyn effeithio ar gymhelliant dysgwyr a datblygu hyfedredd iaith yn barhaus[23]. Bydd angen i ysgolion weithio'n agos â'i gilydd i sicrhau dilyniant ieithyddol o un cyfnod addysg i'r nesaf.

Wrth i newid gyflymu tuag at y cwricwlwm newydd, bydd yn bwysig ystyried sut gall gynorthwyo partneriaethau addysg gychwynnol athrawon i recriwtio myfyrwyr-ymarferwyr, yn enwedig yn y cyfnod cynradd, gyda'r Gymraeg neu astudio iaith ryngwladol yn eu cefndir, a gydag ieithoedd cartref neu gymunedol.

**Mathemateg a Rhifedd**

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Mathemateg a Rhifedd wedi'u geirio'n glir ac yn cynnwys penawdau sy'n ei gwneud hi'n hawdd i ymarferwyr eu hadnabod. Fodd bynnag, nid yw'r pedwar diben yn ddigon penodol yn rhesymeg y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Byddai'n ddefnyddiol ystyried sut gellid gwella'r cysylltiadau hyn. Yn gyffredinol, mae'r adran trosolwg i Fathemateg a Rhifedd yn dod â mathemateg yn fyw, ond gallai ymarferwyr gael eu cymell i beidio â'i ddarllen o ystyried ei hyd a bod rhai adrannau yn generig i'r holl feysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r adran "Sut mae mathemateg yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm" yn amlinellu'n fuddiol bwysigrwydd datblygu medrau dysgwyr mewn Mathemateg a Rhifedd. Mae'r adran sy'n cyflwyno'r pum hyfedredd yn pwysleisio'u pwysigrwydd mewn Mathemateg a Rhifedd. Mae'r enghraifft a ddarperir yn ddefnyddiol iawn, ond byddai'r canllawiau yn elwa o roi mwy o enghreifftiau ym mhob un o'r camau cynnydd a fyddai'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth eang ymhlith ymarferwyr o le canolog yr hyfedreddau. Byddai'n werth cyflwyno cysyniad y pum hyfedredd mathemategol yn gynharach yn y maes dysgu a phrofiad, gan gyfeirio atynt o bosibl yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, neu ochr yn ochr â nhw, fel bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu pwysigrwydd wrth gynllunio ar gyfer dysgu.

Mae'r cysylltiadau rhwng cynllunio ar gyfer dysgu a deilliannau cyflawniad yn glir. Mae'r rhain yn rhoi fframwaith defnyddiol i ymarferwyr ac arweinwyr ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn eu darparwr. Mae Estyn yn croesawu'r pwyslais cynyddol ar addysgu mathemateg ar gyfer caffael dealltwriaeth a phwysigrwydd rhoi cynnydd disgyblion, yn hytrach na sylw i'r cynnwys, wrth wraidd cynllunio, addysgu a dysgu. Bydd y canllawiau yn helpu darparwyr hefyd i ganolbwyntio'n fanylach ar ddatblygu medrau ymresymu a datrys problemau dysgwyr, a sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach o gysyniadau allweddol. Bydd ymarferwyr yn croesawu hyn yn gyffredinol, ynghyd â'r camau cynnydd a ystyriwyd yn ofalus sy'n darparu lefel her dda i'r holl ddysgwyr.

Mae'r prif ddatganiadau cynllunio ar gyfer dysgu yn darparu fframwaith defnyddiol i ymarferwyr ym mhob cam cynnydd i'w hannog i ddefnyddio ystod o weithgareddau, adnoddau a chymysgedd o ddulliau i fodloni anghenion penodol eu dysgwyr yn eu cyd-destun, heb fod yn rhy gyfarwyddol. Mae hyn yn annog ymreolaeth broffesiynol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r datganiadau cynllunio ar gyfer dysgu yn ddigon cryf i

[23] Jaekel et. al (2017). 'From Early Starters to Late Finishers? A Longitudinal Study of Early Foreign Language Learning in School'. *A Journal of Research in Language Studies.* 67(3).

bwysleisio'r profiadau cyfoethog ac amrywiol y dylai dysgwyr eu cael. Byddai'n fuddiol i'r adran hon nodi ychydig mwy o enghreifftiau yn y testun neu fel dogfen ategol ar wahân. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd egluro ac ehangu ar yr ymadrodd yn yr adran gynllunio 'drwy amrywiaeth eang o brofiadau' yng nghamau cynnydd 4 a 5.

Mae'r deilliannau cyflawniad 'Gallaf' yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr i hunanasesu gan roi ystyriaeth ofalus i'w diben bwriadedig. Bydd y datganiadau 'Rwyf wedi' yn helpu sicrhau bod ymarferwyr yn deall pwysigrwydd cynllunio profiadau difyr a dilys i'r holl ddysgwyr. Mae'r canllawiau yn cysylltu'r medrau ehangach a chysylltiadau allweddol a rhyngddibyniaethau yn briodol, ond mae'n wrth ystyried sut gellid cryfhau'r adran hon i helpu ymarferwyr wneud y gorau o'r cysylltiadau hyn.

Mae'r canllawiau ar gyfer Mathemateg a Rhifedd wedi'u hysgrifennu i geisio dylanwadu ar addysgu. Fodd bynnag, am fod cynnydd mewn mathemateg yn seiliedig ar gynnwys, bydd yn hawdd iawn i ymarferwyr ac arweinwyr droi'r cwricwlwm hwn yn rhestr o destunau i ymdrin â nhw. Gallai ymarferwyr geisio mynd ati'n unig i addasu'u cynlluniau gwaith presennol i fod yn addas ar gyfer y maes dysgu a phrofiad Mathemateg a Rhifedd newydd. Mae'n hanfodol ystyried sut gellir cryfhau'r canllawiau i helpu ymarferwyr i werthuso a gwella'u harfer bresennol, gan ei haddasu i fodloni disgwyliadau'r cwricwlwm newydd. Er enghraifft, nid yw'r canllawiau'n pwysleisio'n ddigon da ar hyn o bryd fuddion o ddefnyddio cynrychioliadau diriaethol, gweledol a haniaethol yng nghamau cynnydd 4 a 5.

Mae'r maes dysgu a phrofiad hwn yn cynnwys llawer o enghreifftiau o dermau technegol gor-gymhleth. Byddai symleiddio'r iaith yn gwneud y maes dysgu a phrofiad yn fwy hygyrch i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr, heb leihau ei drylwyredd. Ar brydiau, mae geiriad deilliannau cyflawniad yn aneglur a gallai hyn arwain at eu camddehongli. Er enghraifft, yng ngham cynnydd 3, nid yw'r deilliant cyflawniad ar gyfer algebra sy'n ymwneud a datrys hafaliadau yn dweud yn glir nad oes angen addysgu algebra ffurfiol i ddysgwyr yn y cam cynnydd hwn. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau yn fwy penodol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Mae'r gyfres o chwe datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn pwysleisio'n glir y cysyniadau a'r medrau y dylai dysgwyr eu datblygu. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r cwricwlwm gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r adran gysylltiedig 'dysgu am' yn darparu cyd-destun defnyddiol ac yn egluro'r sail resymegol y tu ôl i strwythur y maes dysgu a phrofiad yn briodol. O fewn gwyddoniaeth a thechnoleg, cyflwynir y pedwar diben fel rhan o bob datganiad o'r hyn sy'n bwysig mewn ffordd ystyrgar. Ceir pwyslais priodol ar ddibenion unigol lle maent yn cysoni'n dda â chysyniadau pwysig mewn datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Yn holistaidd, mae hyn yn arwain at ymdriniaeth dda o'r pedwar diben.

Yn gyffredinol, mae'r deilliannau cyflawniad yn ffurfio map llwybrau gwerthfawr o gynnydd dysgwyr. Mae'r cynnydd hwn yn gydlynus a chlir a dylai helpu dysgwyr gynnal momentwm da yn eu dysgu wrth bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae'r defnydd o derminoleg dechnegol yn cynyddu'n briodol mewn camau cynnydd diweddarach, gan sicrhau bod deilliannau cyflawniad yn addas o ran bod yn hygyrch i ymarferwyr ac athrawon nad ydynt yn arbenigwyr, a manylion pwysig ar gyfer arbenigwyr pwnc uwchradd. Mae i wybodaeth bresenoldeb priodol o amlwg ochr yn ochr â medrau fel rhan o'r deilliannau cyflawniad a chynllunio ar gyfer dysgu. Mae'r adrannau deilliannau cyflawniad a chynllunio ar gyfer dysgu yn addas ar gyfer cynllunio gwersi i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol. At ei gilydd, mae'r adrannau cynllunio ar gyfer dysgu yn darparu arweiniad ychwanegol defnyddiol i ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos eu bod wedi cael eu hystyried mor dda â'r deilliannau cyflawniad. Maent yn

cynnwys pwyntiau penodol, ond nid yw’r rhain yn ffurfio rhestr gyflawn, ac mae ychydig o bwyntiau llawn mor ddilys ar wybodaeth, sgiliau a phrofiadau wedi’u hepgor.

Mae’r cysylltiadau rhwng datganiadau o’r hyn sy’n bwysig â meysydd dysgu a phrofiad wedi’u pennu’n ddigonol o dan y tab cynllunio ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, mae lle o hyd yn adran ‘y berthynas rhwng y datganiadau o’r hyn sy’n bwysig’ i bwysleisio pwysigrwydd y cysylltiadau hyn wrth gynllunio’r cwricwlwm. Dylid cryfhau’r disgwyliad ar gyfer integreiddio profiadau dysgu, neu synergedd rhyngddynt, yn deillio o ddatganiadau gwahanol o’r hyn sy’n bwysig a meysydd dysgu a phrofiad. Heb hyn, gall rhai ymarferwyr ddehongli bod y datganiadau’n cyfeirio at fioleg, cemeg, ffiseg, technoleg dylunio, a chyfrifiadura yn unig a cheisio lleihau unrhyw newidiadau i’r arfer bresennol.

Mae’r canllawiau yn darparu rhyddid gwerthfawr i ddarparwyr ac ymarferwyr arloesi, gan roi ystyriaeth i’w cyd-destunau lleol ac anghenion unigol dysgwyr. Fodd bynnag, mae’r maes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth a thechnoleg yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth sydd wedi deillio o nifer gymharol uchel o bynciau traddodiadol. Mae perygl y gallai darparwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ddehongli’r cwricwlwm fel cyfrwng llywio i gywasgu’r maes dysgu mawr hwn i chweched rhan o’r amser addysgu, a dyrannu ond chweched rhan o adnoddau arweinyddiaeth y cwricwlwm iddo.

Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn cynnwys ystod o gyfleoedd buddiol i ddysgwyr ddatblygu’u medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd hyn yn eglur ac nid yw’r cysylltiadau â’r fframwaith cymhwysedd digidol a’r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn glir. Gallai hyn fod yn fwriadol, a gallai fod yn briodol oherwydd bod rhaid i ddysgu proffesiynol sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu hadnabod ac y manteisir arnynt. Rydym yn ymwybodol bod y deilliannau cyflawniad ar gyfer y datganiad o’r hyn sy’n bwysig ar gyfer cyfrifiant yn cael eu diwygio ar hyn o bryd. Mae ein hymatebion i B5 a B6 sy’n cynnwys pryder nad yw’r datganiad hwn o’r hyn sy’n bwysig fel ag y mae ar hyn o bryd yn cysylltu â, ac yn darparu sylfaen gyfwerth ar gyfer, y fframwaith cymhwysedd digidol, fel y rhai a ddarparwyd i’r fframwaith llythrennedd a rhifedd gan y meysydd dysgu a phrofiad Mathemateg a Rhifedd ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, yn y drefn honno.

Dylid tynnu sylw at unrhyw agweddau ar y maes dysgu a phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy’n parhau’n statudol hyd nes 16 oed. Yng ngolau’r nifer fawr o bynciau traddodiadol sy’n gysylltiedig, mae’n bwysig ystyried sut yr effeithir ar ddewisiadau cymwysterau. Gall rhai dysgwyr fod eisiau arbenigo’n fanwl yn y maes dysgu a phrofiad hwn, a llai felly mewn maes arall. Gall dysgwyr eraill fod eisiau arbenigo mewn agweddau penodol ar wyddoniaeth a thechnoleg, ond nid mewn agweddau eraill ar wyddoniaeth a thechnoleg. Mae maint ac amrywiaeth y maes dysgu a phrofiad hwn yn golygu y byddai hwn, gellir dadlau, yn briodol i rai dysgwyr.

**C2: I ba raddau y mae’r Camau Cynnydd ym *Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd* yn cyfleu’r galluoedd a nodir yn yr egwyddorion cynnydd?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | X | | | |

Mae’r adran hon ar yr hyfedreddau yn glir, ac mae’n pwysleisio’u pwysigrwydd mewn Mathemateg a Rhifedd. Mae’r enghraifft a roddir yn yr adran trosolwg yn ddefnyddiol, ond mae angen darparu rhagor o enghreifftiau tebyg i ymarferwyr ym mhob un o’r camau cynnydd. Mae’n bwysig pwysleisio drwy’r maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd

cyfan, bod yr hyfedreddau yn rhan annatod o bob datganiad o'r hyn sy'n bwysig, er mwyn helpu ymarferwyr wrth gynllunio addysgu a dysgu.

Mae un cyfyngiad yn fformat y cyflwyniad ar-lein yn golygu y gellir cau'r tab hyfedreddau yn llwyr.  Mae hyn yn golygu y gall ymarferwyr ystyried y rhain yn gyflym ac yna dewis peidio â'i gweld eto, yn hytrach na'u gwneud yn nodwedd ganolog o'u cynllunio.  Mae angen i'r hyfedreddau fod yn amlwg ar draws yr adran Mathemateg a Rhifedd yn y cwricwlwm.

**C3: I ba raddau y mae'r adrannau dysgu ym *Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau trawsieithu?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | X | | |

Mae'r cyflwyniad i'r adran Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o'r cwricwlwm drafft yn rhoi arweiniad clir bod angen i ddealltwriaeth dysgwyr o ieithoedd gael ei datblygu.  Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng ieithoedd ac i ddefnyddio medrau trosglwyddadwy wrth ddysgu ieithoedd.  Mae hyn yn cysoni'n dda ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.  Mae'n cefnogi pedwar diben y cwricwlwm a'r angen i newid y rhagolwg ar gyfer y Gymraeg ac ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru.

I wella'r ddogfen ymhellach, byddai'n fuddiol pe bai'r sail resymegol ar gyfer, 'Dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn ein paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd' yn cynnwys datganiad am y modd y bydd y datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig yn cynorthwyo dysgwyr i symud yn esmwyth rhwng ieithoedd gwahanol fel y bydd y sefyllfa'n mynnu.  Mae'n bwysig pwysleisio yn y naratif ategol fod ieithoedd yn faes pwnc y gall dysgwyr weithio'n greadigol drwyddo a chael llawer o fwynhad, pan fydd yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae'r cyfeiriad at ieithoedd y cartref neu'r gymuned drwy'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r cwricwlwm yn rhy amrywiol.  Ar hyn o bryd, nid yw'r ddogfen yn cyflwyno sail resymegol ddigon clir ynglŷn â pham mae ieithoedd cartref neu gymuned dysgwyr yn bwysig i'w dysgu a'u profiadau nhw a dysgwyr eraill.  Gan ei bod yn ddogfen cwricwlwm lefel uchel, dylai'r adrannau 'Dysgu' a 'Cynllunio ar gyfer Dysgu' adlewyrchu'r egwyddorion hyn a dangos cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a datblygu'u medrau amlieithog ar draws y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yng nghyd-destun ieithoedd y cartref neu'r gymuned.

Yn gyffredinol, mae'r camau cynnydd yn mynd i'r afael â datblygu medrau trawsieithu dysgwyr yn briodol.  Byddai cam cynnydd 2 yn elwa o gael datganiad cymhwyso i wella'r ddealltwriaeth o gynnydd rhwng deilliannau cyflawniad.  Er enghraifft, gellid ychwanegu 'yn briodol i fy ngham i o ddysgu iaith' at y datganiad 'Gallaf ddefnyddio sgiliau trawsieithu yn Gymraeg ac yn Saesneg a, lle bo hynny'n berthnasol, yn ieithoedd y cartref/gymuned'. Gallai fod yn ddefnyddiol i barhau â'r enghreifftiau ieithoedd y cartref neu'r gymuned yng ngham cynnydd 2 (gweler y pwynt uchod), yn hytrach na rhestru enghreifftiau o ieithoedd tramor modern yn unig, a allai arwain at gamddealltwriaeth bod rhaid i ddarparwyr gyflwyno iaith ryngwladol yng ngham cynnydd 2 fel iaith 'newydd' (er gan adael i ddarparwyr wneud hynny pe baent yn dymuno).

Ar hyn o bryd, nid yw'r adrannau dysgu yn adlewyrchu mor glir ag y gallent, pan fydd dysgwyr yn dysgu mwy nag un iaith, na fydd eu datblygiad ar gyfradd cynnydd gyfartal ar draws yr ieithoedd, ac ni fyddant ychwaith yn datblygu'u medrau derbyn neu gynhyrchu yn yr iaith honno i'r un graddau. Fodd bynnag, gallant ddal i symud rhwng ieithoedd gyda gwahanol lefelau gwybodaeth a chaffael medrau. Er enghraifft, gallai dysgwr Ffrangeg yng ngham cynnydd 3 fod yn fwy hyderus yn gwrando a darllen, nag yn siarad ac ysgrifennu, o gymharu â dysgwr Cymraeg a fydd wedi dechrau ei ddysgu yn gynnar yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, byddai'n fuddiol pe bai'r adran profiadau, gwybodaeth a sgiliau yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar gyfleoedd i ddysgwyr glywed, darllen/gweld a siarad ieithoedd yn y camau cynnydd cynharach, yn hytrach nag ysgrifennu, yn enwedig wrth ddysgu ieithoedd ychwanegol, a bod y rhain yn pwysleisio trawsieithu mewn cyd-destunau siarad, darllen a gwrando.

Rydym yn cydnabod yr uchelgais yn yr adran profiadau, gwybodaeth a sgiliau, er enghraifft 'Mae angen i ddysgwyr allu gwerthfawrogi, adnabod a deall gwahanol acenion, tafodieithoedd a phriodieithoedd' (o gam cynnydd 1). Fodd bynnag, mae'r derminoleg hon sy'n benodol i'r pwnc, a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol, yn debygol o fod yn destun pryder i ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr. Felly, mae'n rhaid cydweddu dysgu proffesiynol ac adnoddau â'r uchelgais hon. Bydd yn hanfodol i staff ym mhob lleoliad ysgol i deimlo'n hyderus yn eu gwybodaeth am fedrau ieithyddol a dulliau dysgu ac addysgu, sy'n briodol i oedran, os yw Cymru i fodloni'r disgwyliadau a bennir yn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Rydym yn argymell y dylai dysgu proffesiynol i'r holl staff mewn ysgolion adeiladu ar sylfaen gadarn y gwaith a wnaed gan y Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang a chysylltu â rhwydweithiau rhanbarthol presennol, er enghraifft mentrau consortia rhanbarthol cyfredol a phrosiectau ledled y DU a gynorthwyir gan Y Brifysgol Agored.

**C4: I ba raddau y mae'r canllawiau ym *Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu'r broses o gaffael a dysgu ieithoedd?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | X | | | |

Mae'r canllawiau drafft yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar yr elfennau perthnasol o ddysgu iaith, ei ddibenion ehangach a'i fuddion i ddysgwyr a'r gymdeithas. Mae datblygu'r deilliannau cyflawniad gwahaniaethol, yn seiliedig ar gontinwwm cynnydd mewn ieithoedd, yn darparu fframwaith cryf i ddarparwyr wahaniaethu rhwng dulliau addysgu, a chymhwyso'r rheini sy'n fwyaf priodol ar gyfer anghenion datblygu iaith dysgwyr mewn llwybrau cynnydd ac ar draws llwybrau cynnydd.

Mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn cysylltu gwrando gyda darllen a siarad gydag ysgrifennu yn fuddiol. Mae'r trefniant hwn yn cefnogi datblygu cymwyseddau tebyg ym mhob un o'r medrau iaith, er enghraifft 'datblygu dod i gasgliadau fel sgiliau derbyn' mewn gwrando a darllen, neu 'ddatblygu'r gallu i siarad ac ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd' fel sgiliau cynhyrchu.

Mae astudio ieithoedd yn cyfrannu profiadau newydd i wybodaeth ddatblygol dysgwyr am Gymru a'r byd, ac am ddiwylliannau eraill. Mae'n darparu cyd-destunau pwrpasol ar gyfer datblygu caffael a dysgu iaith. Mae hyn yn cefnogi cyflawni'r pedwar diben yn effeithiol a

chaiff ei adlewyrchu'n dda yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig, 'Mae dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn ein paratoi i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd'.

Mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig, 'Mae dysgwyr sy'n siarad ac yn ysgrifennu'n effeithiol yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith', yn canolbwyntio'n rhy gryf ar faterion gramadegol mewn ysgrifennu yn y llwybr cynnydd ieithoedd rhyngwladol. Rydym yn awgrymu bod hyn yn cael ei fireinio i sicrhau bod pwyslais digonol ar ddatblygu hyder a gallu dysgwyr i siarad iaith gyda lefel dda o rugldeb. Dylai hefyd gynorthwyo defnydd creadigol dysgwyr o iaith, hyd yn oed os yw'r dysgwr yn gwneud camgymeriadau gramadegol wrth iddo archwilio ysgrifennu testunau creadigol mewn iaith ychwanegol.

Rydym yn cytuno â'r ymagwedd i ddefnyddio Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR) (Cygor Ewrop, *dim* dyddiad)[24] fel offeryn cyfeirio wrth ddylunio'r llwybrau cynnydd. Mae'r CEFR wedi'i seilio ar dystiolaeth ryngwladol gadarn o gynnydd ieithyddol ar gyfer dysgu ieithoedd ychwanegol. Mae'r adran Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o'r canllawiau cwricwlwm drafft yn cyflwyno ymrwymiad i gynyddu statws ieithoedd yn y cwricwlwm, ac mae'r llwybr cynnydd ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn ddigon eang i gwmpasu ystod eang o ieithoedd.

Er mwyn gwella'r ddogfen ymhellach, awgrymwn y gellid rhoi ystyriaeth i fireinio geiriad y deilliannau cyflawniad ar gyfer medrau derbyn a chynhyrchu mewn ieithoedd rhyngwladol a Chymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg, fel bod gwell 'cysylltiad' rhwng y llwybrau cynnydd hyn. Bydd hyn yn rhoi cymorth gwell i ymarferwyr, yn enwedig y rheini nad ydynt yn arbenigwyr mewn addysgu iaith ychwanegol. Efallai y byddai deilliannau cyflawniad mewn Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg yng nghamau cynnydd 3 a 4, yn cael eu cynnwys mewn camau cynnydd diweddarach ar gyfer ieithoedd rhyngwladol i adlewyrchu mai mater i ddarparwyr fydd hi i bennu p'un ai, ac i ba raddau, i addysgu ieithoedd rhyngwladol ac i ddysgwyr ym mha ystod oedran. Fodd bynnag, lle bynnag y bo modd, dylai'r iaith a ddefnyddir fod yn gyson ar draws y llwybrau cynnydd. Bydd hyn yn cynorthwyo ymarferwyr a dysgwyr i wneud y cysylltiadau a gwneud cynllunio ar gyfer dysgu mewn ieithoedd yn broses fwy hylaw ac effeithiol.

Yn yr adran 'Cynnydd o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn', dywed y canllawiau, 'Mae deilliannau cyflawniad ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn dangos cynnydd o gam cynnydd 3.' Serch hynny, darperir deilliannau cyflawniad eang iawn ar gyfer camau cynnydd 1 a 2. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r datganiadau hyn yn rhy eang i fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, ac o ganlyniad, nid yw'r llwybr hwn yn adlewyrchu caffael a datblygu iaith yn gynnar mewn ieithoedd rhyngwladol yn ddigon da. Awgrymwn y dylid ymhelaethu ar y deilliannau cyflawniad ar gyfer camau cynnydd 1 a 2 a chysylltu â phob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Dylent ddarparu cymorth neu arweiniad i gynllunio dysgu ac addysgu ar gyfer medrau penodol gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu, a dylid eu defnyddio fel sail i fonitro sut mae dysgwyr yn symud ymlaen tuag at gam cynnydd 3. Byddai hyn yn bodloni'r cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn[25] yn well:

At ei gilydd, mae'r deilliannau cyflawniad ar gyfer y camau cynnydd ar gyfer Cymraeg mewn lleoliad cyfrwng Saesneg yn adlewyrchu'r cynnydd mewn caffael a datblygu iaith yn well nag yn y llwybr ieithoedd rhyngwladol. Yn ogystal, nid yw datganiadau am fedrau tebyg yn cael eu mynegi mor glir yn y llwybr cynnydd ieithoedd rhyngwladol ag yn y llwybr Cymraeg mewn lleoliad cyfrwng Saesneg.

[24] Cyngor Ewrop (*2001*) *Common European Framework of Reference for languages: Learning, teaching, assessment.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://rm.coe.int/1680459f97 Darllenwyd ar: 19/06/2019

[25] Llywodraeth Cymru (2019) ***Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol, Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd.*** [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-01/dogfen-ymgynghori-cwricwlwm-trawsnewidiol.pdf Darllenwyd ar: 19/06/2019

Ar hyn o bryd, nid yw'r deilliannau cyflawniad ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yng nghamau cynnydd 1 i 3 yn adlewyrchu'r naratif cefnogol 'Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd' yn ddigon da. Dylai'r rhain adlewyrchu'r cynnydd ar gyfer Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg yn fanylach er mwyn sicrhau nad yw'r cyfle i ddarparu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer dysgu ieithoedd rhyngwladol yn cael ei golli. Byddem yn croesawu'r cyfle i gael trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r deilliannau cyflawniad ar gyfer ieithoedd rhyngwladol a chynigiwn ein cymorth ar gyfer unrhyw waith pellach mewn perthynas â'r rhain.

Yn gyffredinol, trwy gydol y Deilliannau Cyflawniad ar gyfer Cymraeg/Saesneg a Chymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg, ceir gormod o bwyslais ar '**dreigladau'**. Yn ein barn, ni ddylid ymdrin â'r agwedd hon ar iaith yn yr un modd ag agweddau eraill ar ramadeg yn Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd rhyngwladol, ac ni ddylid cyfeirio'n benodol at hyn yn y ddogfen.

Mae datblygu geirfa yn hanfodol ym mhob cam dysgu. Mae'r ddogfen yn cyfeirio'n briodol at hyn yn 'Gwrando', 'Siarad' ac 'Ysgrifennu' o gam cynnydd 1 yn y profiadau, gwybodaeth a sgiliau, er enghraifft:

(Gwrando) Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amgylcheddau iaith cyfoethog
- modelau iaith gan amrywiaeth o siaradwyr
- geirfa uchelgeisiol ac iaith idiomatig er mwyn gwella dewisiadau iaith

(Siarad) Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amgylcheddau iaith cyfoethog…
- modelau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd

(Ysgrifennu) Mae angen i ddysgwyr brofi::

- amrywiaeth gynyddol o eirfa ar gyfer cyd-destunau penodol a phynciau penodol
- cyfleoedd i archwilio a defnyddio amrywiaeth o eirfa uchelgeisiol a phriodol

Fodd bynnag, nid yw'r adran cynllunio ar gyfer dysgu yn cynnwys y cyswllt hanfodol rhwng datblygu geirfa a datblygu medrau darllen dysgwyr. Bydd gweithgarwch thematig arfaethedig ar gyfer 2020-2021 yn cynnwys adroddiad ar ba mor dda y mae ysgolion cynradd yn helpu dysgwyr i gaffael iaith ac ehangu'u geirfa i gefnogi datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu. Byddem yn argymell bod yr adran 'darllen' yn y profiadau, gwybodaeth a sgiliau yn cael ei mireinio i gynnwys cyfeiriadau priodol i gefnogi datblygiad darllen dysgwyr.

**C5: I ba raddau y mae'r canllawiau *Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles* yn cefnogi dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas â sicrhau iechyd a lles?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | X | | | |

Mae cynnwys Iechyd a Lles fel un o'r chwe maes dysgu a phrofiad yn cynorthwyo ysgolion i fabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan at gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae Estyn yn croesawu'r datblygiad hwn ac mae'n cefnogi'r negeseuon pwysig a gyflëir ar hyd yr adran dysgu a phrofiad ynglŷn â'r rôl bwysig meithrin iechyd a lles dysgwyr trwy gydol eu cyfnod mewn addysg a thu hwnt.

Mae tudalen 19 y ddogfen maes dysgu a phrofiad iechyd a lles yn amlinellu'n fras yr angen am ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae hyn ynghudd rywsut yn y canllawiau a byddai'n fuddiol iddo fod yn fwy amlwg, o ystyried pa mor bwysig yw'r neges hon.

Gellid cryfhau'r adran hon trwy gynnwys negeseuon allweddol o adroddiad thematig Estyn 'Iach a hapus: effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant' (Mehefin 2019). Nododd yr adroddiad hwn mai nod ysgolion sydd ag ymagwedd ysgol-gyfan gynhwysol at gefnogi iechyd a lles disgyblion yw sicrhau bod profiad ysgol y disgyblion o ddydd i ddydd yn gyson â'r negeseuon a roddir am iechyd a llesiant yn y cwricwlwm. Yn ogystal â chwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys profiadau dysgu unigol, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hybu iechyd a llesiant, mae gan yr ysgolion hyn:

- bolisïau ac arferion sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- arweinwyr sy'n 'gwneud y dweud' ynghylch cefnogi iechyd a llesiant disgyblion
- diwylliant anogol, lle y mae perthnasoedd cadarnhaol yn galluogi disgyblion i ffynnu
- cymuned ac ethos cynhwysol
- gwybodaeth fanwl am iechyd a llesiant disgyblion sy'n dylanwadu ar bolisïau a chamau gweithredu
- amgylchedd a chyfleusterau sy'n hybu iechyd a llesiant da, fel le i chwarae, cymdeithasu ac ymlacio amser egwyl
- gofal bugeiliol cefnogol ac ymyriadau targedig i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol
- cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol
- partneriaethau agos â rhieni a gofalwyr
- dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff, sy'n eu galluogi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion

Gallai fod yn fuddiol cyfeirio at adroddiad Estyn, gan nad oedd ar gael pan lansiwyd yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cryfhau'r canllawiau hefyd trwy gynnwys dolenni at y dogfennau canllawiau statudol ac anstatudol perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd a lles, sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at y cwricwlwm a phrofiadau dysgu neu agweddau eraill ar ymagwedd ysgol gyfan. Gallai'r dolenni hyn fod yn hyperddolenni defnyddiol ar fersiwn y canllawiau ar y we, a gallent gynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Canllawiau ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau (Llywodraeth Cymru, 2013a)
- Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010b)
- Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru: Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (Llywodraeth Cymru, 2017b)
- Grwpiau anogaeth: llawlyfr i ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010a)
- Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir (Llywodraeth Cymru, 2014)
- Cael dŵr yfed am ddim (Llywodraeth Cymru, 2016a)
- Toiledau ysgol: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2012)
- Cynlluniau ysgolion iach - rhwydwaith Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2018)
- SchoolBeat (Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yr heddlu) (Llywodraeth Cymru, 2011b)
- Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru (Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, 2017)
- Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd (Llywodraeth Cymru, 2017a)
- Canllawiau statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch darpariaeth gwasanaethau cwnsela annibynnol (Llywodraeth Cymru, 2013b)

- Rhaglen mewngymorth i ysgolion (GIG Cymru, 2018)
- Cynnwys a chynorthwyo disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2015b)
- Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio (Llywodraeth Cymru, 2011a)
- Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol (Llywodraeth Cymru, 2016c)
- Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005)

**A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach neu roi adborth ar unrhyw beth arall?**

**Rhestr cyfeiriadau**


Cyngor Ewrop (*2001*) *Common European Framework of Reference for languages: Learning, teaching, assessment.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://rm.coe.int/1680459f97 [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Estyn (2012) *Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Penderfyniadau%20gwybodus%3A%20Gweithredu%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20fframwaith%20Gyrfaoedd%20a%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20Byd%20Gwaith%20-%20Hydref%202012.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Estyn (2016) *Cymedroli asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3: adolygiad o gywirdeb a chysondeb.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Teacher%20assessment%20-%20Cy.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Estyn (2017a) *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Active%20and%20experiential%20learning_W_Accessible_0.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Estyn (2017b) *Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Careers%20-%20Thematic%20survey%20report%20cy.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Estyn (2018a) *Gwella addysgu.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Improving%20teaching%20-%20cy.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Estyn (2018b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* 2017 – 2018*.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn_Annual%20Report_Accessible_Welsh_2018.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Estyn (2018c) *Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Vulnerable%20learners%20cy.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Estyn (2018d) *Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Welsh%20in%20key%20stage%202%20and%20key%20stage%203%20in%20Welsh-medium%20or%20bilingual%20schools%20Cy.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Estyn (2019) *Iach a Hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Healthy%20and%20Happy%20report%20Cy_0.pdf [Darllenwyd 12 Mehefin 2019]

Jaekel, N., Schurig, M., Florian, M. a Ritter, M. (2017) From Early Starters to Late Finishers? A Longitudinal Study of Early Foreign Language Learning in School. [Ar-lein]. *A Journal of Research in Language Studies*, **67**(3), 631-664. Ar gael o: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1111/lang.12242

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005) *Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

GIG Cymru (2018) *Rhaglen mewngymorth i ysgolion*. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.wales.nhs.uk/news/49534 [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) *Cynlluniau ysgolion iach – rhwydwaith Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/82249 [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

UNESCO (2018) *International technical guidance on sexuality education: An evidence-informed approach.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://unesdoc.unesco.org/in/documentViewer.xhtml?v=2.1.196&id=p::usmarcdef_0000260770&file=/in/rest/annotationSVC/DownloadWatermarkedAttachment/attach_import_d8d4de18-19d0-4a35-8eb2-ab5eaa5ca5d3%3F_%3D260770eng.pdf&updateUrl=updateUrl1673&ark=/ark:/48223/pf0000260770/PDF/260770eng.pdf.multi&fullScreen=true&locale=en#%5B%7B%22num%22%3A47%2C%22gen%22%3A0%7D%2C%7B%22name%22%3A%22XYZ%22%7D%2C0%2C842%2C0%5D [Darllenwyd 10 Mehefin 2019]

Y Cenhedloedd Unedig (1948) *Universal Declaration of Human Rights*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.ohchr.org/EN/UDHR/Documents/UDHR_Translations/eng.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Y Cenhedloedd Unedig (1966) *International Covenant on Economic, Social and Cultural Rights*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/cescr.aspx [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Y Cenhedloedd Unedig (1989) *Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Y Cenhedloedd Unedig (2011) *United Nations Declaration on Human Rights Education and Training*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.ohchr.org/EN/Issues/Education/Training/Compilation/Pages/UnitedNationsDeclarationonHumanRightsEducationandTraining(2011).aspx [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010a) *Grwpiau anogaeth: llawlyfr i ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/grwpiau-anogaeth-llawlyfr-i-ysgolion.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010b) *Addysg cydberthynas a rhywioldeb mewn ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/addysg-cydberthynas-a-rhywioldeb-mewn-ysgolion-canllawiau.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2011) *Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/parchu-eraill-trosolwg-gwrth-fwlio.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2018]

Llywodraeth Cymru (2012) *Toiledau ysgol: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/toiledau-ysgol-canllaw-arfer-da-ar-gyfer-ysgolion-yng-nghymru.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2013a) *Canllawiau ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-ar-gyfer-addysg-camddefnyddio-sylweddau.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2013b) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/92/6c/06/23/079e4045a394a531d43c21e9/cynorthwyo-ysgolion-i-gyflwynor-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2013c) *Canllawiau statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch darpariaeth gwasanaethau cwnsela annibynnol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-yng-nghymru-ynghylch-darpariaeth-gwasanaethau-cwnsela-annibynnol.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2014) *Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/bwyta-n-iach-mewn-ysgolion-a-gynhelir-canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-a-chyrff-llywodraethu.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2015) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Cael dŵr yfed am ddim*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/learning-wales-information-has-moved/?docs/learningwales/publications/access-to-drinkingwater-cy.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2016b) *Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwrthsafiad-a-pharch-datblygu-cydlyniant-cymunedol.pdf [Darllenwyd 17 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cefnogi-dysgwyr-ag-anghenion-gofal-iechyd.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru: Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-y-cwricwlwm-addysg-rhyw-a-pherthnasoedd-yng-nghymru.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2010]

Llywodraeth Cymru a GIG Cymru (2017) *Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gweddill.gov.wales/docs/phhs/publications/170523schoolnursecy.pdf [Darllenwyd 18 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2018) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol - Canllawiau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/a0/dc/74/b1/509041c8b9497b8d00356cdb/canllawiau-r-fframwaith-cymhwysedd-digidol-2018.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]

Llywodraeth Cymru (2019) *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol, Cynigion am fframwaith deddfwriaethol newydd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-01/dogfen-ymgynghori-cwricwlwm-trawsnewidiol.pdf [Darllenwyd 19 Mehefin 2019]